

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

73/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:

24/11/2022

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso

Cangen Ymchwil y Gymraeg, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi,
Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. (2022). Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 73 / 2000.
Ar gael: [Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr \(Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso\) | LLYW.CYMRU](#)

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil y Gymraeg

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Ymchwil.Cymraeg@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Tabl Geirfa	2
1. Cyflwyniad: Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso ar gyfer Cymraeg 2050	5
2. Cyd-destun polisi.....	7
3. Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.....	9
4. Gwerthuso Cymraeg 2050	14
5. Theori newid Cymraeg 2050	24
6. Thema 1 – Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.....	26
7. Thema 2 – Cynyddu defnydd o'r Gymraeg.....	42
8. Thema 3 – Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.....	52
9. Llyfryddiaeth	68
Atodiad A: Ffynonellau Data	71

Rhestr o ffigurau

Diagram 1: Theori Newid Cymraeg 2050	25
--	----

Tabl Geirfa

Acronym / term	Diffiniad
AB	Addysg Bellach
APS	Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Annual Population Survey, APS)
AU	Addysg Uwch
CBGY	Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgol
CGA	Cyngor y Gweithlu Addysg
CSCA	Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
CYBLD	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
Cyfnod Sylfaen	Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol i bawb rhwng 3 a 7 oed yng Nghymru
Cymraeg 2050	'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr' yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
(Cymraeg 2050) Cynllun Gweithredu	Mae Cynlluniau Gweithredu yn manylu ar y gweithgareddau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu rhoi ar waith mewn perthynas â Cymraeg 2050 o fewn blwyddyn ariannol benodol.
(Cymraeg 2050) Rhaglen Waith	Mae'r Rhaglenni Gwaith yn amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn anelu i'w gyflawni o fewn cyfnod amser penodol. Hyd yma mae Rhaglenni Gwaith wedi eu cyhoeddi ar gyfer 2017-21 a 2021-26.
DSW	Dysgu seiliedig ar waith
DU	Y Deyrnas Unedig
Estyn	Estyn yw'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru.
GGD	Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, is-adran o fewn Llywodraeth Cymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol

HESA	Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (Higher Education Statistics Agency, HESA).
LLWR	Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (Lifelong Learning Wales Record, LLWR).
MCS	Astudiaeth Carfan y Mileniwm (Millennium Cohort Study, MCS)
Meysydd dysgu a phrofiad	Rhaid i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei roi ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau dysgu ac addysgu sydd yn cwmpasu chwe "Maes dysgu a phrofiad" ar gyfer dysgwr yn y flwyddyn dderbyn i Flwyddyn 9 (yn gynwysedig).
NSW	Arolwg Cenedlaethol Cymru (National Survey for Wales, NSW).
OECD	Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (The Organisation for Economic Co-operation and Development)
Rhaglen Waith (Cymraeg 2050)	Mae'r Rhaglenni Gwaith yn amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn anelu i'w gyflawni o fewn cyfnod amser penodol. Hyd yma mae Rhaglenni Gwaith wedi eu cyhoeddi ar gyfer 2017-21 a 2021-26.
SASS	Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Saesneg (Self Assessment of Service Statement, SASS)
SHRN	Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (School Health Research Network, SHRN)
SYG	Swyddfa Ystadegau Gwladol
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
UCAS	Gwasanaeth Derbyn Prifysgolion a Cholegau (Universities and Colleges Admissions Service, UCAS)
UE	Yr Undeb Ewropeaidd

YDG Cymru	Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (Administrative Data Research Wales, ADR Wales)
WISERD	Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (Wales Institute of Social and Economic Research and Data, WISERD)

1. Cyflwyniad: Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso ar gyfer Cymraeg 2050

- 1.1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth gyfredol ar gyfer y Gymraeg, 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr', yn 2017. Fel mae'i theitl yn ei awgrymu, mae'r Strategaeth yn gosod targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hefyd yn gosod targed mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg: canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu i 20 y cant erbyn 2050.
- 1.2 Mae mesur y cynnydd o ran gweithredu ymyriadau a rhaglenni, a deall eu cyfraniad tuag at amcanion polisi ehangach, yn allweddol er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Fel mae'r 'Magenta Book' (canllaw Trysorlys ei Fawrhydi ynghylch beth i'w ystyried wrth ddylunio gwerthusiad) yn ei nodi, mae gwerthuso yn golygu cynnal asesiad systematig o sut mae ymyriad wedi ei dylunio, a sut mae'n cael (neu sut y cafodd) ei gweithredu, beth yw ei heffaith, ar bwy, a pham (Trysorlys ei Mawrhydi, 2020: 5).¹
- 1.3 Diben y Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso hwn yw i gynnig arweiniad ar gyfer casglu tystiolaeth a data, asesu cynnydd a gwerthuso effaith 'Cymraeg 2050' (y Strategaeth), wrth iddi gael ei gweithredu a'i datblygu. Er mwyn gwneud hyn, mae'r ddogfen yn:
- Cyflwyno 'Cymraeg 2050', ei hamcanion a sut y maent yn gysylltiedig â pholisïau a gweithgarwch ehangach Llywodraeth Cymru.
 - Nodi'r cysylltiadau a'r dibyniaethau o fewn, a rhwng, gwahanol agweddau'r Strategaeth;
 - Cyflwyno ystyriaethau methodolegol, cwestiynau ymchwil a blaenoriaethau ar gyfer gwerthuso 'Cymraeg 2050'.
 - Cyflwyno cyd-destun, rhagdybiaethau, risgiau a'r ffynonellau data i'w hystyried wrth fynd ati i gynnal ymchwil neu i werthuso'r Strategaeth a / neu weithgarwch sy'n gysylltiedig a rhannau ohoni.
- 1.4 Mae'r Fframwaith yn ymdrech i gyfrannu at ddiwylliant chwilfrydig, beirniadol ac adeiladol ynghylch polisi iaith a'r Gymraeg. Bwriedir hefyd iddo gefnogi proses gydweithredol lle bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio gyda sefydliadau a chyrff eraill sy'n cynnal ymchwil a gwerthusiadau, i ddatblygu'r sail tystiolaeth ar gyfer 'Cymraeg 2050'.
- 1.5 Mae'r ddogfen yn adlewyrchu peth o gynnwys 'Fframwaith gwerthuso strategaeth y Gymraeg' a luniwyd ar gyfer strategaeth flaenorol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, 'Iaith fyw: iaith byw' (2012-17), a gyhoeddwyd yn 2013 (Llywodraeth Cymru, 2012: 2013). Mae'r prif ystyriaethau a'r egwyddorion allweddol a gyflwynwyd yn y fframwaith blaenorol

¹ Gweler hefyd 'The Green Book: Central Government Guidance on Appraisal and Evaluation' (Trysorlys ei Mawrhydi, 2022).

yn parhau i fod yn berthnasol; bwriedir iddynt barhau i gynnig arweiniad a chanllaw wrth i raglen ymchwil a gwerthuso'r Strategaeth bresennol gael ei rhoi ar waith. Mae'r Fframwaith newydd hwn yn ystyried y datblygiadau diweddaraf o ran polisi a'r ffactorau cymdeithasegol a sosioieithyddol sydd bellach yn rhan o'r cyd-destun ar gyfer cynllunio ieithyddol yng Nghymru.

- 1.6 Rhagwelir y bydd y ddogfen hon yn cael ei defnyddio at ddibenion ymchwil a chraffu gan gyrff a sefydliadau y tu hwnt i Lywodraeth Cymru yn ogystal â'r Llywodraeth ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau ac asiantaethau ymchwil, a chyrff cyllido ymchwil. Bwriedir iddi hefyd fod o ddefnydd i sefydliadau a mudiadau sydd yn darparu gwasanaethau neu weithredu ymyriadau mewn perthynas â'r Gymraeg, ac sy'n awyddus i ddatblygu eu gallu i hunanwerthuso a deall effaith eu gwaith.

2. Cyd-destun polisi

- 2.1 O dan Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu strategaeth sy'n cyflwyno sut y maent yn bwriadu hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg. Mae 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr' wedi ei llunio yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.
- 2.2 Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) yn cynnwys saith nod llesiant ar gyfer Cymru, ac yn eu plith mae 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy hefyd yn golygu bod disgwyliad ar gyrff cyhoeddus i ymgorffori pum ffordd o weithio, yn seiliedig ar yr ystyriaethau canlynol: 'hirdymor; atal; integreiddio; cydweithio, a chynnwys'.
- 2.3 Diweddarwyd [Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-26](#) ym mis Rhagfyr 2021 i ymgorffori'r Cytundeb Cydweithio tair blynedd rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Mae'n cyflwyno'r ymrwymïadau canlynol er mwyn "bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg":
- Deddfu i gryfhau a chynyddu ein darpariaeth mewn addysg Gymraeg.
 - Symleiddio'r broses ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg.
 - Gweithredu Safonau'r Gymraeg ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus; rheoleiddwyr yn y sector iechyd; cyrff cyhoeddus sydd newydd eu sefydlu a chwmnïau dŵr; a dechrau'r gwaith o weithredu Safonau ar gymdeithasau tai.
 - Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei siarad mewn rhagor o leoedd, gan gynnwys gweithleoedd.
 - Creu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.
 - Gweithio gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a llywodraeth leol ar strwythurau sefydliadol tymor hwy posibl ar gyfer Arfor a'r Cymoedd, ac ariannu cam dau rhaglen Arfor.
- 2.4 Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r deg amcan llesiant sydd wedi eu pennu ar gyfer y tymor 2021-26, er mwyn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at saith nod llesiant hirdymor Cymru. Mae un o'r rhain yn cynnwys 'Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg'. Bydd dau o [Ddangosyddion Cenedlaethol Cymru](#) (Dangosyddion 36 a 37) yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd tuag at y nod llesiant cenedlaethol, a thuag at ddau darged y Strategaeth:

- Dangosydd llesiant 36: Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o'r iaith.
- Dangosydd llesiant 37: Nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.²

2.5 Nod y system o Safonau a dyletswyddau statudol a grëwyd drwy Fesur y Gymraeg (2011) yw creu cynllunio mwy bwriadus mewn gweithleoedd, er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau ieithyddol angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaethau. Mae'r Safonau yn ceisio hybu a hwyluso'r Gymraeg, ac yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gallu gosod Safonau sy'n benodol gymwys ar gyrff, a gorfodi'r Safonau hynny.

² Adeg cyhoeddi 'Cymraeg 2050' yn 2017 roedd y dangosydd hwn wedi ei eirio fel a ganlyn: 'Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg'. Cyflwynwyd y newid o ganran i nifer yn 2021.

3. Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

Cymraeg 2050: Themâu a nodau strategol

3.1 Mae'r Strategaeth wedi ei strwythuro ar sail tair thema strategol:

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

Ceir cyfres o nodau o fewn pob thema, a chyfanswm o ddeg o newidiadau trawsnewidiol.

3.2 Mae'n ofynnol o dan Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynllun yn nodi sut y byddant yn gweithredu'r bwriadau a gyflwynwyd yn eu Strategaeth. Mae'r Llywodraeth felly'n cyhoeddi Cynlluniau Gweithredu sydd yn manylu ar y gweithgareddau sydd i'w rhoi ar waith yn ystod blwyddyn ariannol benodol. Mae hefyd yn ofynnol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithrediad y Strategaeth.

3.3 Yn ogystal â'r Cynlluniau Gweithredu blynyddol, mae dwy Raglen Waith wedi eu cyhoeddi ar gyfer 'Cymraeg 2050' hyd yma: [Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2017 i 2021](#) a [Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026](#).

3.4 Mae adran olaf Thema 3 y Strategaeth yn nodi'r canlynol o ran ymchwil a gwerthuso:

Er mwyn gwireddu amcanion y strategaeth bydd angen sail dystiolaeth gadarn, ac ymrwymiad i werthuso effeithiolrwydd y rhaglenni a'r ymyriadau a gaiff eu rhoi ar waith oddi tani. Byddwn yn datblygu rhaglen ymchwil a gwerthuso i ddarparu sail ar gyfer hyn. (Llywodraeth Cymru, 2017: 77)

3.5 Mae'r bwriad hwn wedi ei gadarnhau ym Maes Gweithredu 57 Rhaglen Waith 'Cymraeg 2050' ar gyfer y cyfnod 2021-26:

Parhau i ychwanegu at ein sail dystiolaeth am y Gymraeg a chynllunio ieithyddol, drwy ddatblygu ein rhaglen ymchwil a gwerthuso. (Llywodraeth Cymru, 2021)

3.6 I gyd-fynd â chyhoeddi 'Cymraeg 2050' ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru amcanestyniad ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd hyd at 2050, ynghyd â thaflwybr er mwyn dangos un ffordd bosibl o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn seiliedig ar nodau'r Strategaeth. Mae'r Strategaeth yn nodi y bydd y Llywodraeth yn ailymweld â'r taflwybr yn ôl yr angen er mwyn adolygu cynnydd yn barhaus, wrth i ragor o ddata gael eu cyhoeddi (Llywodraeth Cymru, 2017: 23).

- 3.7 Bydd diweddariad o ran nifer y siaradwyr Cymraeg o Gyfrifiad 2021 ar gael yn y blynyddoedd yn dilyn y Cyfrifiad. Bydd yr adroddiad [Amcangyfrifon siaradwyr Cymraeg 2011 i 2050: adroddiad technegol](#), ac unrhyw ddiweddariadau perthnasol iddi dros weddill oes y Strategaeth, yn allweddol i werthusiadau a gwaith ymchwil yn y dyfodol.

Cymraeg 2050: seiliau cysyniadol

- 3.8 Er fod 'Cymraeg 2050' wedi ei chyflwyno ar sail tair thema, mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod yr angen i ddeall y gydberthynas rhyngddynt. Gan adleisio'r hyn a gyflwynwyd yn y fframwaith gwerthuso yn 2013, mae'r Strategaeth yn nodi bod hyfywedd iaith yn gyfuniad o nifer o ffactorau cyd-ddibynnol. Mae'n cynnig bod y model Olwyn Dân yn parhau i fod yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer deall natur gylchol y ddeinameg rhwng caffael iaith, darparu a defnyddio gwasanaethau, a chanfyddiad pobl o ddefnyddioldeb iaith (gweler Strubell, 2001).
- 3.9 Bydd natur aml-haenog ymddygiad ieithyddol, a'r angen i weithgarwch cynllunio iaith ymdrin â'r cymhlethdod hwn, yn nodwedd ganolog o bob ymgais i werthuso'r Strategaeth. Bydd hyn yn dod â heriau methodolegol yn ei sgil, ar lefel gwerthuso rhaglenni unigol, ac wrth gynnal meta-werthusiadau – cydgrynhoi canfyddiadau o gyfres o werthusiadau – ar lefel strategaeth gyfan.
- 3.10 Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod gweithredu rhaglen hirdymor ar gyfer y Gymraeg yn gofyn nid yn unig am ddealltwriaeth o sut mae siaradwyr yn defnyddio'r iaith heddiw, ond hefyd ystyriaeth o sut maent yn debygol o fod yn ei defnyddio yn y dyfodol:

Nid oes gennym ddarlun manwl o sut bydd pobl yn byw eu bywydau erbyn 2050, ond y tebygolrwydd yw y bydd y datblygiadau rydym wedi eu gweld dros y degawdau diwethaf yn parhau i drawsnewid ein bywydau bob dydd. Gwelwn sut mae globaleiddio, symudedd, a dehongliadau mwy amrywiol o gysyniadau megis yr uned deuluol a 'chymuned' wedi arwain at newidiadau pellgyrhaeddol [...]. Ar yr un pryd, nid yw'r newidiadau hyn wedi disodli'n llwyr bwysigrwydd cymunedau sydd wedi eu diffinio gan ddaearyddiaeth, rhwydweithiau cymdeithasol sy'n seiliedig ar gyfathrebu wyneb yn wyneb, a'r aelwyd yn ganolbwynt i fywyd teuluol [...]

Wrth i'r patrymau sydd yn diffinio ein bywyd bob dydd barhau i newid, ac o gofio'r tebygolrwydd y byddant yn parhau i esblygu yn ystod oes y strategaeth, mae angen i ni sicrhau bod ein dealltwriaeth o beth yw 'cymuned', cymunedau ymarfer a rhwydweithiau o siaradwyr yn parhau i dyfu hefyd. Rydym yn rhagweld y bydd y mannau lle mae pobl

yn treulio cyfran fawr o'u hamser yn dod yn gynyddol bwysig, fel gweithleoedd, clybiau diddordeb, mannau cymdeithasol newydd a rhwydweithiau electronig o bob math. Rhaid i'n cynllunio ieithyddol fod yn ddigon cadarn a hyblyg i ymateb i'r tueddiadau hyn. (Llywodraeth Cymru, 2017: 15-16).

- 3.11 Disgwylir y bydd y rhaglen ymchwil a gwerthuso yn cael ei haddasu a'i mireinio, wrth i strwythurau ac arferion cymdeithasegol esblygu, ac wrth i'r cwestiynau ymchwil ynghylch hyfywedd y Gymraeg, ac ymddygiad ieithyddol ei siaradwyr, esblygu yn sgil hynny.
- 3.12 Adeg llunio'r Strategaeth yn 2017, dim ond ceisio rhagweld effeithiau tebygol ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd oedd yn bosibl. Yn fwy diweddar, mae effeithiau pellgyrhaeddol COVID-19 i'w gweld ar lefel byd-eang. Rhagwelir y bydd y dystiolaeth a fydd ar gael ynghylch natur a graddfa'r effeithiau hyn yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf, mewn meysydd yn cynnwys iechyd, yr economi, addysg, cyflogaeth, ac ynghylch demograffeg. Bydd archwilio dimensiwn ieithyddol newidiadau allanol sylweddol megis y pandemig neu ymadael â'r UE yn allweddol wrth i'r rhaglen ymchwil a gwerthuso gael ei datblygu.
- 3.13 Mae'r pandemig wedi codi cwestiynau allweddol hefyd ynghylch ymwneud pobl â'i gilydd, o fewn teuluoedd, gyda chyfoedion, wrth ddefnyddio gwasanaethau ac mewn gweithleoedd. Disgwylir y bydd goblygiadau hynny o ran ymddygiad ieithyddol a hyfywedd y Gymraeg yn rhan integredig o'r rhaglen ymchwil a gwerthuso. Mae canfyddiadau arolwg a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng Medi a Hydref 2020 yn cynnig darlun cynnar o effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg. Mae'r adroddiad hefyd wedi gosod y darlun hwn yng nghyd-destun yr hyn mae'r arolwg yn ei ddangos ynghylch sefyllfa'r grwpiau cyn y pandemig a'u disgwyliadau ar gyfer y dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2020ch).
- 3.14 Bydd angen i gynlluniau ymchwil a gwerthuso gadw mewn cof hefyd y goblygiadau o ran argaeledd data a thystiolaeth yn sgil cyfnod y pandemig. Ceir gwybodaeth ynghylch argaeledd y data yn adrannau dilynol y ddogfen hon.
- 3.15 Nodwedd allweddol o'r Strategaeth yw'r egwyddor o edrych ar gaffael a defnyddio'r Gymraeg fel profiad gydol oes. Tra bod 'Cymraeg 2050' yn datgan ymrwymiad i hyrwyddo trosglwyddo'r Gymraeg o'r naill genhedlaeth i'r llall, mae hefyd yn cydnabod nad dyma yw'r unig ffordd o gynyddu nifer siaradwyr. Mae gan y sectorau blynyddoedd cynnar ac addysg statudol rôl allweddol o ran cynnig cyfleoedd i siaradwyr ddysgu'r Gymraeg am y tro cyntaf. Mae hwyluso cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau hyn ymhellach, ac i'w caffael am y tro cyntaf, ar gyfnodau hwyrach mewn bywyd, hefyd yn hanfodol: mewn addysg a

hyfforddiant yn y cyfnod ôl-statudol, mewn gweithleoedd, a thrwy rwydweithiau eraill sy'n cynnig cefnogaeth a chynhaliaeth i siaradwyr ddatblygu eu sgiliau.

- 3.16 Mae'r Strategaeth yn cynnig bod y dull cwrs bywyd yn darparu sail ar gyfer archwilio a deall profiadau ieithyddol siaradwyr a'u perthynas â'r Gymraeg ar wahanol gyfnodau yn ystod eu bywyd. Mae hyn yn cynnwys yn ystod 'pwyntiau tyngedfennol', lle gall y cysyniad o 'mudes', neu 'addasiadau mewn ymddygiad ieithyddol' (gweler Pujolar & Puigdevall, 2015a) gynnig ffordd o adnabod ac amlygu'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar sgiliau, profiadau ac arferion ieithyddol siaradwyr yn ystod eu hoes. Bydd angen i'r rhaglen ymchwil a gwerthuso ystyried sut y gall yr ymagwedd cwrs bywyd gyfoethogi'r sail tystiolaeth, drwy astudiaethau sy'n seiliedig ar ddulliau hydredol, dulliau ethnograffig a ffyrdd eraill o astudio profiadau byw, ac astudiaethau o grwpiau penodol o siaradwyr (yn cynnwys siaradwyr o oedrannau penodol).
- 3.17 Wrth i'r rhaglen ymchwil a gwerthuso gael ei datblygu, bydd angen asesu pa mor effeithiol mae'r Strategaeth yn ei chyfanrwydd, a'r ymyriadau unigol sy'n rhan ohoni, yn gwireddu'r amcan o weld caffael a defnyddio'r Gymraeg fel profiad gydol oes.

Cymraeg 2050: swyddogaeth Llywodraeth Cymru

- 3.18 Mae Rhagair y Gweinidogion i'r Strategaeth adeg ei chyhoeddi yn datgan y canlynol wrth nodi'r angen i edrych o'r newydd ar sut i gynllunio ar gyfer y dyfodol:
- Rydym yn datgan yn glir mai ein cyfrifoldeb ni fel Llywodraeth yw gosod y cyfeiriad ar gyfer y gwaith hwn a'i arwain. Mae gan y Llywodraeth hon yr ewyllys a'r ymroddiad i wneud hynny (Llywodraeth Cymru, 2017: 2).
- 3.19 Mae'n nodi hefyd bod gweithredu amcanion y Strategaeth yn gyfrifoldeb i'r genedl gyfan, ac na all y Llywodraeth ar ei phen ei hun fod yn gyfrifol am ddyfodol y Gymraeg. Bydd archwilio i ba raddau mae'r Strategaeth wedi ei pherchnogi ar hyd cymdeithas Cymru yn un elfen bwysig wrth i'r Strategaeth gael ei gwerthuso.
- 3.20 Bydd angen archwilio hefyd i ba raddau mae Llywodraeth Cymru ei hun yn llwyddo i wireddu ei hymrwymiad i bennu cyfeiriad a chynnig arweiniad – o ran gweithredu ei pholisi ar gyfer y Gymraeg, a hefyd o ran ei threfniadau gwerthuso.
- 3.21 Mae tair thema'r Strategaeth yn ymestyn ar draws amrywiaeth eang o feysydd polisi, yn cynnwys addysg a hyfforddiant, iechyd, cynllunio, yr economi, tai, ac adfywio cymunedol. Wrth drafod prif ffyrddio'r Gymraeg, nododd y fframwaith gwerthuso blaenorol rai ystyriaethau sydd yn parhau i fod yn ddilys:

Mae nod Llywodraeth Cymru o brif ffrydio'r Gymraeg yn y meysydd polisi hyn yn ganolog i lwyddiant y Strategaeth, ac mae angen archwilio i ba raddau y mae'n gwireddu'r nod hwn [...]

Yn yr un modd, bydd angen i Lywodraeth Cymru gael gwybod a yw ei phroses o gomisiynu ymchwil a gwerthuso mewn gwahanol feysydd polisi yn cynnwys systemau priodol i sicrhau bod yr effaith ar y Gymraeg ac ar y bobl sy'n ei siarad yn cael ei gwerthuso mewn modd systematig, a hynny fel mater o drefn. Er mwyn mynd i'r afael â'r ddau gwestiwn hyn bydd angen adolygiad cynhwysfawr o'r prif ddogfennau polisi, a'r astudiaethau gwerthuso yn y meysydd polisi allweddol, fel y gellir pwysu a mesur gwaith y Llywodraeth o ran prif ffrydio'r Gymraeg. (2013: 9)

- 3.22 Ers cyhoeddi'r fframwaith blaenorol yn 2013 mae'r Llywodraeth wedi datblygu rhaglen o brif ffrydio'r Gymraeg mewn ymchwil, gyda'r nod o gynyddu cydweithio rhwng dadansoddwyr ar draws meysydd polisi er mwyn adnabod trywyddau ymchwil sy'n berthnasol i flaenoriaethau strategol y Llywodraeth. Bydd angen i werthusiadau yn y dyfodol asesu i ba raddau mae'r camau hyn wedi bod yn effeithiol, ac i ba raddau mae canfyddiadau ac argymhellion yr ymchwil sydd wedi deillio ohonynt wedi cael eu rhoi ar waith. Bydd archwilio'r ffactorau sydd yn hwyluso ac yn gosod rhwystrau o ran gallu'r Llywodraeth i wreiddio'r Gymraeg ar draws ei meysydd polisi yr un mor allweddol.

Gweithio mewn Partneriaeth

- 3.23 Tra bod y Llywodraeth yn datgan ei chyfrifoldeb o ran arwain a gosod cyfeiriad strategol, mae hefyd yn cydnabod fod y Strategaeth yn gofyn am gyfraniad amrediad eang o bartneriaid, asiantaethau a sefydliadau. Bydd archwilio i ba raddau mae'r Strategaeth yn hwyluso cydweithio effeithiol rhwng yr asiantaethau hyn yn elfen ganolog o'r rhaglen ymchwil a gwerthuso. Mae'r egwyddor o weithio mewn partneriaeth wedi ei seilio ar yr ystyriaethau canlynol:

- Effeithiolrwydd y mecanweithiau sydd ar waith i hybu cydweithio strategol rhwng partneriaid.
- Swyddogaeth y Strategaeth o ran cynnal a chryfhau cydberchnogaeth am gynllunio iaith – o ran gweithredu a hefyd o ran gwerthuso effaith.

4. Gwerthuso Cymraeg 2050

- 4.1 Bydd gwerthuso'r Strategaeth yn golygu craffu ar wahanol agweddau o 'Cymraeg 2050'. Gellir archwilio i ba raddau mae prosiectau neu raglenni unigol yn effeithiol ac yn cyfrannu at amcanion 'Cymraeg 2050', a gellir hefyd archwilio sut mae'r Strategaeth fel rhaglen yn cael ei gweithredu. Mae'r gwerthuso'r Strategaeth, felly, yn debygol o gynnwys gwerthusiadau proses a thraweffaith ar lefel prosiect neu raglen unigol, yn ogystal â meta-werthusiad(au) o brosiectau a rhaglenni fel cyfanwaith. Bydd y ddwy elfen hon yn golygu archwilio cadernid rhesymeg y Strategaeth.
- 4.2 Bydd angen i werthusiadau o 'Cymraeg 2050' ystyried ystod eang o raglenni ac ymyriadau sy'n ymwneud ag amrediad eang o feysydd polisi. Mae nifer ohonynt yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r Gymraeg yn ganolog i bob rhaglen ac ymyriad sy'n cyfrannu at amcanion y Strategaeth. Yn yr achosion hyn mae disgwyl i ystyriaethau penodol o ran y Gymraeg fod wedi cael sylw.
- 4.3 Mae 'Cymraeg 2050' hefyd yn strategaeth aml haenog, a'r cysylltiadau rhwng ac o fewn ei themâu yn niferus. Mae'r gyd-ddibyniaeth hon yn dod â heriau o ran gwerthuso, a deall a phriodoli traweffaith yr ymyriadau a gaiff eu gweithredu yn enw'r Strategaeth.
- 4.4 Cam allweddol a fydd yn gosod sail gadarn ar gyfer unrhyw broses werthuso, felly, fydd i fynegi dealltwriaeth fanwl o sail ddamcaniaethol y Strategaeth a'i chyd-destun ehangach. Mae theori newid yn gallu cynnig ffordd o fynegi'r ddealltwriaeth hon, ac o archwilio sut y mae ymyriadau yn achosi newid ac yn cyfrannu tuag at strategaeth neu amcanion ehangach. Disgwylir y gall theorïau newid fod o fudd felly i werthusiadau o'r Strategaeth a'r gweithgarwch sy'n ymwneud â hi.

Theori newid

- 4.5 Mae theorïau newid yn cyflwyno'r berthynas – yn aml ar ffurf diagram – rhwng y mewnbynnau, y gweithgareddau, yr allbynnau, deilliannau tymor byr a hwy, a'r traweffaith sy'n gysylltiedig â rhaglen neu bolisi (Trysorlys ei Mawrhydi, 2020; Mayne, 2017). Drwy olrhain y camau ar hyd y trywydd hwn, mae theori newid yn gallu cynnig ffordd o brofi cadernid rhesymeg prosiect neu raglen, ac o wirio a yw'r newidiadau cynnar neu'r gweithgarwch yn y tymor byr yn debygol o gyflawni deilliannau disgwyliedig polisi neu strategaeth. Maent felly'n gallu cynorthwyo'r broses o ddylunio a gweithredu rhaglen.
- 4.6 Mae modd hefyd defnyddio theorïau newid fel sail ar gyfer asesu cynnydd, a gwerthuso. Maent yn gallu cynorthwyo'r broses o ddatblygu cwestiynau ymchwil; adnabod

dangosyddion priodol; nodi bylchau yn y data; blaenoriaethu casglu data ychwanegol, a darparu strwythur ar gyfer dadansoddi data ac adrodd. Mae theorïau newid hefyd yn gallu amlygu i ba raddau, a sut, mae gweithgarwch a chynnydd yn cyfrannu at y newidiadau a fwriadwyd. Maent felly yn cynnig modd o osod prosiectau a rhaglenni unigol yn eu cyd-destun strategol ehangach.

- 4.7 Yn ogystal ag ystyried a yw rhaglen yn gweithio (neu pa rannau ohoni sydd yn gweithio), mae theorïau newid yn gallu cynnig sail i ystyried pam eu bod yn gweithio neu beidio, drwy archwilio'r cyd-destun ehangach, y rhagdybiaethau, a'r rhwystrau a'r cyfleoedd sydd ymhlyg yn y rhagdybiaethau hynny.

Dulliau a methodolegau gwerthuso

- 4.8 Mae ystod o ddulliau dadansoddi yn cynnig modd o fynd i'r afael â chwestiynau ynghylch priodoli effaith; natur y cynnydd a'r newidiadau; sut y gallai'r cyd-destun fod wedi dylanwadu ar ganlyniadau; ac i ba raddau y gellir cyffredinolï'r canfyddiadau. Ystyrir rhai dulliau posibl isod.

Dadansoddi Cyfraniad

- 4.9 Mae dadansoddi cyfraniad (contribution analysis) yn gyrchddull (approach) a ddefnyddir i ddeall y tebygolrwydd fod gweithgarwch penodol wedi cyfrannu ai peidio at ddeilliant. Mae'r gyrchddull yn gallu cefnogi gwerthusiadau sydd wedi eu seilio ar theorïau newid, a chynorthwyo'r broses o gael eglurder ynghylch y berthynas rhwng gweithgareddau a deilliannau penodol. Mae'n gwneud hyn trwy broses strwythuredig sy'n archwilio sut y dylai'r cyfraniad arwain at newid, ac yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i bennu a yw hyn wedi digwydd. Mae chwe cham allweddol i'r fethodoleg hon (gweler Mayne, 2011).

Olrhain Prosesau

- 4.10 Mae olrhain prosesau (process tracing) yn gyrchddull ymchwil a ddefnyddir er mwyn archwilio theorïau a rhesymeg ymyriadau neu bolisïau. Mae'n aml yn golygu casglu data a thystiolaeth i olrhain sut a pham y mae gweithgarwch yn arwain at ganlyniadau penodol.

Dadansoddiadau Cymharol (Ansoddol)

- 4.11 Defnyddir dadansoddiadau cymharol i gymharu rhaglenni lle ceir nifer o ymyriadau. Mae'n cynnig modd systematig o ystyried a deall patrymau a nodweddion sy'n gysylltiedig â chanlyniadau yn seiliedig ar wybodaeth ansoddol. Mae'r fethodoleg yn gallu adnabod gwahanol fathau o ffactorau achosol. Gan amlaf, mae'n golygu mynd ati i ddadansoddi tystiolaeth o astudiaethau achos yn systematig.

Dulliau arbrofol a lled-arbrofol

- 4.12 Os gellir adnabod a chasglu data cymharol ar gyfer grŵp gwrthffeithiol (counterfactual), a rheoli newidynnau drysu (confounding variables), mae methodolegau arbrofol a lled-arbrofol yn cynnig dulliau pwerus i archwilio a phriodoli effaith gweithgarwch penodol. Wrth gymharu newidiadau (neu ddiffyg newidiadau) ymysg grwpiau sydd wedi derbyn ymyriad benodol, a'r rheini nad ydynt wedi derbyn yr ymyriad, gellir casglu a oes modd priodoli'r newidiadau hynny i'r ymyriad neu beidio.

Heriau ac ystyriaethau wrth werthuso

- 4.13 Cyflwynir isod rai ystyriaethau a heriau y dylid eu hystyried wrth werthuso a phriodoli effaith y Strategaeth:
- Mae amrywiaeth o fathau o ymyriadau sydd / a fydd ar waith yr un pryd, a heriau ynghylch asesu beth sydd wedi peri i rywbeth ddigwydd.
 - Mae amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys agweddau unigolion, yn gallu dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol unigolion a sefydliadau ar hyd eu cwrs bywyd. Gallai priodoli newidiadau ymddygiad i weithgarwch penodol, yn hytrach nag i'r ystod o ffactorau ehangach, fod yn her.
 - Mae amrywiaeth o ddata a gwybodaeth yn debygol o fod ar gael ar gyfer gwerthuso ymyriadau, a allai beri heriau wrth geisio'u cymharu.
 - Mae 'Cymraeg 2050' yn strategaeth hirdymor, ac mae'n bosibl y bydd dwyster a chyflymder traweffaith gweithgarwch yn amrywio. Mae hyn yn codi heriau ynghylch mesur a gwerthuso cynnydd ar wahanol adegau yn ystod gweithrediad y Strategaeth.
 - Mae'r sail dystiolaeth ac ymchwil yn gryfach mewn perthynas â rhai agweddau ar y Strategaeth o'u cymharu ag eraill.

Ffactorau allanol

- 4.14 Mae ystod o ffactorau allanol, sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid, a allai effeithio ar sut mae'r Strategaeth yn cael ei rhoi ar waith, ac ar ei thraweffaith. Disgwylir i'r ffactorau hyn gael eu hystyried o fewn gwerthusiadau. Yn eu plith mae:
- Pandemig COVID-19 a'i draweffaith ar gymdeithas ac economi Cymru.
 - Dylanwad y Saesneg fel iaith fyd-eang ac iaith marchnadoedd llafur.
 - Polisiâu a gweithgarwch Llywodraeth y DU.

- Datblygiadau economaidd a thechnolegol, a'u traweffaith ar gymdeithas, demograffeg a phatrymau caffael / defnydd iaith pobl yng Nghymru.
- Newidiadau ym mhoblogaeth a demograffeg Cymru.

Ffynonellau data a thystiolaeth

- 4.15 Mae disgwyl i amrywiaeth eang o ffynonellau data gael eu defnyddio i fesur cynnydd mewn perthynas â'r Strategaeth; mae Penodau 6-8 yn nodi ffynonellau penodol sy'n berthnasol i nodau'r Strategaeth. Mae'r penodau hyn hefyd yn nodi astudiaethau ymchwil sydd wedi eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar raglenni sy'n berthnasol i'r maes dan sylw.
- 4.16 Cyflwynir trosolwg isod o'r ffynonellau data a thystiolaeth i'w hystyried wrth werthuso'r Strategaeth, neu wrth gynnal astudiaethau ymchwil. Mae Atodiad A yn cyflwyno rhagor o wybodaeth, ynghyd â dolenni at y ffynonellau.

Ffynonellau ar gyfer mesur cynnydd ynghylch targedau'r Strategaeth

- 4.17 Mae 'Cymraeg 2050' yn nodi mai'r cyfrifiad yw'r ffynhonnell awdurdodol ar gyfer mesur nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) sy'n gyfrifol am y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Papur Gwyn '[Helpu i Lunio Ein Dyfodol: Cyfrifiad o Boblogaeth a Thai yng Nghymru a Lloegr 2021](#)' yn nodi y bydd y SYG yn gwneud argymhellion i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2023 am ddyfodol y cyfrifiad, gyda'r uchelgais o roi data gweinyddol wrth wraidd y system ar gyfer ystadegau'r boblogaeth. Mae'r Strategaeth yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddefnyddio ei pherthynas agos â'r SYG i gymryd rhan yn y gwaith hwn, gan gynnwys cadw sylfaen ystadegol gref a chadarn mewn cysylltiad â'r Gymraeg.
- 4.18 [Yr Arolwg Defnydd Iaith](#) yw'r ffynhonnell awdurdodol ar gyfer mesur cynnydd tuag at y targed sy'n ymwneud â defnydd y Gymraeg.
- 4.19 Defnyddir Arolwg Cenedlaethol Cymru (National Survey for Wales, NSW), yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth (Annual Population Survey, APS) ac ystod o ddata addysg, yn

³ Mae ffynonellau eraill ar gael sy'n rhoi amcangyfrif o nifer a chanran o boblogaeth Cymru sy'n siaradwyr Cymraeg, sef yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, Arolwg Cenedlaethol Cymru ac Arolygon Defnydd Iaith. Mae nifer o resymau posibl pam bod gwahaniaeth rhwng amcangyfrifon y cyfrifiad ac amcangyfrifon arolygon aelwydydd, gan gynnwys y modd mae'r data'n gael ei gasglu, a'r ffaith bod asesiad siaradwyr o ba mor dda y maent yn siarad iaith yn gallu bod yn oddrychol. Mae rhagor o wybodaeth am y gwahaniaethau rhwng y cyfrifiad a'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth ar gael mewn [Bwletin](#).

cynnwys y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, er mwyn monitro tueddiadau rhwng cyfrifiadau gan eu bod ar gael yn fwy cyson.

Ffynonellau data eraill

- 4.20 Mae adroddiadau blynyddol sy'n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn cyflwyno ystod o ddata gweinyddol a monitro ynghylch y Strategaeth.
- 4.21 Mae data gweinyddol yn cael ei greu a'i gasglu gan y Llywodraeth pan fydd pobl yn defnyddio neu'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus, megis ysgolion, y GIG, y llysoedd neu'r system fudd-daliadau. Rhaid i'r cyrff cyhoeddus hyn gadw cofnodion o'r rhyngweithiadau hyn at y dibenion gweithredol canlynol: eu galluogi i gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd, i fonitro a gwella eu perfformiad, a pharhau i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd effeithiol. Mae'n debygol y bydd data gweinyddol a monitro ar gael mewn perthynas â rhaglenni penodol.
- 4.22 Mae data gweinyddol yn gallu cyfoethogi gwaith ymchwil a gwerthuso, gan greu darlun llawer mwy cywir a chynhwysfawr o gymdeithas nag sy'n bosibl hebddo. Mae setiau data gweinyddol yn cynnwys gwybodaeth am bawb sy'n dod i gysylltiad â'r Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, daw'r manteision mwyaf o ddefnyddio data gweinyddol ar gyfer ymchwil pan fydd data sy'n cael ei greu gan un adran o'r Llywodraeth neu wasanaeth cyhoeddus yn cael ei gysylltu â data gweinyddol eraill.
- 4.23 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag [Ymchwil Data Gweinyddol \(YDG\) Cymru \(Administrative Data Research Wales, ADR Wales\)](#) i fanteisio ar y seilwaith, yr arbenigedd a'r gallu sydd ar gael ar gyfer ymchwil sy'n cysylltu data yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth wedi cyfrannu at y buddsoddiad ym Manc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw ([SAIL](#)), sydd yn darparu [Amgylchedd Ymchwil Dibynadwy](#) diogel i ddefnyddio ddata gweinyddol wedi ei ddad-adnabod ar gyfer gwaith ymchwil. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn darparu diweddariadau sylweddol i ddata sy'n bodoli eisoes o fewn SAIL, ac mae'n parhau i geisio cynnig setiau data newydd i gefnogi anghenion tystiolaeth y Rhaglen Lywodraethu. Bydd SAIL yn galluogi ymchwilwyr i ystyried ac archwilio gwybodaeth weinyddol ochr yn ochr â data ynghylch caffael a defnydd iaith (drwy'r Cyfrifiad).
- 4.24 Drwy'r dechnoleg a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau digidol gan y sector cyhoeddus a phreifat, cynhyrchir cryn dipyn o ddata am y defnydd o'r gwasanaethau hynny. Gall y data

hwn fod yn werthfawr o ran deall dewisiadau iaith a phrofiad defnyddwyr y gwasanaethau hyn.

- 4.25 Mae gwerthusiadau ac astudiaethau ymchwil hefyd yn cynnig cyfleoedd i gasglu a dadansoddi tystiolaeth gynradd am wahanol agweddau ar y Strategaeth, yn cynnwys:
- Astudiaethau sydd yn archwilio profiadau byw grwpiau penodol o siaradwyr, e.e. teuluoedd;
 - Astudiaethau o ardaloedd penodol, e.e. cymunedau lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg;
 - Astudiaethau o barthau a sefyllfaoedd penodol, e.e. defnydd iaith o fewn y gweithle;
 - Astudiaethau achos o bwyntiau tyngedfennol a 'mudes'.

Bydd yr astudiaethau hyn yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio amrediad o ddulliau a methodolegau meintiol ac ansoddol, yn cynnwys dulliau ethnograffig.

- 4.26 Mae astudiaethau hydredol yn ceisio dadansoddi data a gesglir dros gyfnodau hir o amser. Yn aml, mae pob casgliad o ddata yn adeiladu ar yr hyn rydym yn ei wybod eisoes am gyfranogwyr, ac yn caniatáu i ymchwilwyr archwilio patrymau o newid dros amser.
- 4.27 Gall astudiaethau hydredol gynnig ffordd o gasglu a dadansoddi tystiolaeth ddefnyddiol am brofiadau siaradwyr a deinameg ymddygiadau ieithyddol. Mae'r astudiaethau hydredol canlynol yn ffynonellau data sy'n cynnwys peth tystiolaeth ynghylch elfennau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, a cheir manylion pellach amdanynt yn Atodiad A:
- Astudiaeth hydredol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
 - Astudiaeth Carfan y Mileniwm (Millennium Cohort Study).
 - Deall Cymdeithas: Astudiaeth Hydredol Cartref y DU (Understanding Society: The UK Household Longitudinal Study).
 - Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD.

- 4.28 Yn ogystal â'r astudiaethau hydredol sydd eisoes yn bodoli, dylid ystyried cyfleoedd i sefydlu astudiaethau hydredol a threfniadau i ddychwelyd at gyfranogwyr yn ystod cyfnod bywyd 'Cymraeg 2050'.

- 4.29 Gan fod y Gymraeg yn fater sy'n gysylltiedig ag ystod eang o feysydd polisi a gweithgarwch, mae gwerthusiadau o weithgarwch ehangach y Llywodraeth yn gallu cynnwys data ynghylch y Gymraeg. Gall yr adroddiadau hyn gynnig gwybodaeth yn

ychwanegol i'r cyhoeddiadau ymchwil a gwerthuso sy'n ymwneud yn benodol â rhaglenni ac ymyriadau sy'n cael eu cyflwyno yn enw'r Strategaeth.

Methodoleg ar gyfer llunio'r Fframwaith

4.30 Datblygwyd y Fframwaith hwn gan swyddogion Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (GGD), Llywodraeth Cymru. Roedd y broses o ddatblygu a drafftio'r Fframwaith yn cynnwys y camau canlynol:

- Cam 1: Drafftio cychwynnol gan swyddogion GGD.
- Cam 2: Gweithdai gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu theori(ïau) newid ac archwilio cyd-destun polisi'r Strategaeth.
- Cam 3: Adborth ar ddrafftiau cychwynnol y Fframwaith gan swyddogion polisi.
- Cam 4: Cyfarfodydd gyda swyddogion polisi ar draws meysydd portffolio Llywodraeth Cymru er mwyn deall y cyd-destun polisi, ac i wirio ansawdd a chywirdeb y Fframwaith.
- Cam 5: Gwahoddiad i swyddogion polisi a'r GGD Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag aelodau o [Gyngor Partneriaeth y Gymraeg](#) i gynnig sylwadau ar y Fframwaith drafft.
- Cam 6: Mireinio pellach ar sail sylwadau ac adborth.

Strwythur y Fframwaith

4.31 Mae Pennod 5 yn cyflwyno theori newid lefel uchel, sy'n mynegi'r berthynas rhwng prif elfennau'r Strategaeth. Bwriedir i hon gael ei defnyddio fel sail ar gyfer datblygu ymhellach theori neu theoriâu manylach a mwy cynhwysfawr y gellir eu mireinio wrth i raglen ymchwil a gwerthuso 'Cymraeg 2050' gael ei datblygu ymhellach.

4.32 Mae Penodau 6-8 yn trafod tair thema'r Strategaeth yn eu tro, gan roi sylw i bob un o'r 15 nod. Mae'r drafodaeth ar y nodau unigol wedi ei strwythuro fel a ganlyn. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau lle nad oes rhai is-benawdau ar gyfer rhai nodau. Yn yr achosion hyn disgwylir y bydd gwerthuswyr yn eu datblygu ymhellach:

Rhesymeg: Mae'r adran hon yn cyflwyno'r rhesymeg dros y nod dan sylw, fel y mae wedi ei chyflwyno yn y Strategaeth ei hun.

Traweffaith y nod: Yr hyn y bwriedir i'r nod o dan sylw ei gyflawni, yn ôl yr hyn sydd wedi ei nodi yn y Strategaeth ei hun.

Deilliannau tymor byr / hwy: Mae'r deilliannau wedi eu datblygu o'r hyn a gyflwynir yn y Strategaeth ei hun neu'r Rhaglenni Gwaith, fel y camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni'r nod. Mae'r camau hyn yn cael eu dehongli fel 'deilliannau' yn y ddogfen hon, er nad yw'r Strategaeth ei hun yn defnyddio'r term 'deiliant' mewn perthynas â'r rhain. Ceir

ymgais i wahaniaethu rhwng deilliannau tymor byr a thymor hwy. Mae bwriad i gyflawni'r canlyniadau tymor byr cyn diwedd oes y Strategaeth, yn aml o fewn y 10 mlynedd gyntaf, a / neu maent yn gamau sy'n cyfrannu at ganlyniadau ehangach, tymor hwy.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach: Trafodir y cyd-destun polisi neu faterion ehangach sydd yn berthnasol i'r nod. Darperir yr wybodaeth fel man cychwyn ar gyfer mireinio a diweddarau pellach, wrth i werthusiadau ac astudiaethau ymchwil gael eu comisiynu a'u cynnal.

Rhagdybiaethau: Cyflwynir rhai rhagdybiaethau allweddol y gallai fod angen eu hystyried wrth archwilio pa mor gadarn yw'r rhesymeg sy'n sail i'r Strategaeth. Dylid nodi mai rhagdybiaethau sydd yn deillio o resymeg y Strategaeth ei hun yw'r rhain, ac nad ydynt o anghenraid yn cyfateb i'r rhagdybiaethau sy'n llywio gwaith yn y maes polisi dan sylw ar hyn o bryd.

Risgiau: Cyflwynir rhai risgiau a allai beryglu neu gael effaith niweidiol ar yr hyn mae'r nod yn ceisio ei gyflawni.

Swyddogion GGD, gyda mewnbwn gan swyddogion polisi Llywodraeth Cymru, sydd wedi datblygu'r Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach, y Rhagdybiaethau a'r Risgiau. Disgwylir y bydd ymchwilwyr a gwerthuswyr yn eu hadolygu, eu diweddarau a'u datblygu ymhellach.

Ffynonellau data: Rhestrir ffynonellau sy'n cynnig data perthnasol i werthuso'r nod, yn ogystal â chyhoeddiadau ymchwil a gwerthuso Llywodraeth Cymru (yn unig). Mae Atodiad A: Ffynonellau Data yn cyflwyno manylion pellach ynghylch y ffynonellau hyn.

- 4.33 Nid yw Penodau 6-8 yn trafod y gweithgareddau a'r allbynnau sy'n gysylltiedig â gwahanol themâu a nodau'r Strategaeth. Disgwylir y bydd ymchwilwyr a gwerthuswyr yn mynd ati i adnabod gweithgareddau ac allbynnau perthnasol yn seiliedig ar y Rhaglenni Gwaith a gweithgarwch ehangach y Llywodraeth.

Blaenoriaethau

- 4.34 Cyn gwerthuso traweffaith, mae'n debygol y bydd angen datblygu gwerthusadwyedd agweddau o'r Strategaeth. Disgwylir y bydd hyn yn cynnwys datblygu theorïau newid cynhwysfawr; ystyriaeth o'r cyd-destun a rhagdybiaethau; datblygu dangosyddion; ac adnabod cwestiynau ymchwil a ffynonellau data priodol i allu gwerthuso effaith maes o law.
- 4.35 Mae'r Strategaeth yn cyflwyno targedau sydd i'w cyrraedd dros gyfnod o 33 mlynedd, ac mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd traweffaith y Strategaeth i'w weld am nifer o flynyddoedd. Oherwydd ei natur hirdymor, bydd ystyriaethau ynghylch pryd y gellir disgwyl

gweld deilliannau tymor byr a thymor hwy yn allweddol, wrth i werthusiadau gael eu cynllunio ac wrth i'r dystiolaeth gael ei dadansoddi. Mae archwilio i ba raddau y mae amodau ffafriol wedi eu sefydlu hefyd yn flaenoriaeth yn ystod blynyddoedd cynnar y Strategaeth.

- 4.36 Rhagwelir y bydd agweddau ar y Strategaeth yn cael eu harchwilio drwy astudiaethau ymchwil a gwerthusiadau o raglenni nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â 'Cymraeg 2050'. Blaenoriaeth arall i werthusiadau, felly, fydd i adnabod cyfleoedd i ddatblygu a phrifffrydio ffocws ar y Gymraeg o fewn gwaith ymchwil ehangach. Gallai hyn hefyd gynnig ffordd o leihau'r baich ar ymatebwyr, a sicrhau gwerth am arian.

Cwestiynau Ymchwil Iefel Strategaeth


- 4.37 Cyflwynir isod gwestiynau sydd yn cwmpasu'r Strategaeth yn ei chyfanrwydd. Mae cwestiynau ymchwil sy'n benodol i'r tair thema strategol wedi eu cynnwys yn y penodau sy'n dilyn.
- A yw dyluniad y Strategaeth yn hwyluso cynnydd tuag at ei hamcanion?
 - A yw'r tair thema strategol yn darparu sail briodol ar gyfer gwireddu gweledigaeth y Strategaeth?
 - A yw sail gysyniadol y Strategaeth yn briodol?
 - A yw'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r Strategaeth yn gadarn?
 - A yw hyd a lled a graddfa'r rhaglenni a'r ymyriadau sy'n cael eu gweithredu yn enw'r Strategaeth yn ddigonol i gyflawni'r newidiadau a fwriedir?
 - A yw'r rhaglenni a'r ymyriadau sy'n cael eu gweithredu yn enw'r Strategaeth yn darparu gwerth am arian?
 - Pa mor effeithiol yw'r Strategaeth o ran cyfrannu at ymdrechion i wreiddio'r Gymraeg fel ystyriaeth bolisi ar draws meysydd polisi?
 - Pa mor effeithiol yw'r newidiadau trawsnewidiol wrth alluogi cynnydd tuag at nodau'r Strategaeth ar draws y tair thema?
 - A yw'r deilliannau sydd wedi eu nodi ar gyfer y nodau a'r newidiadau trawsnewidiol yn fesuradwy, ac a oes data addas ar gael er mwyn mesur cynnydd?
 - Pa mor gynaliadwy yw'r cynnydd a wneir mewn perthynas â nodau'r tair thema strategol?
 - A yw'r Strategaeth yn ymateb yn llwyddiannus i heriau a ffactorau allanol?
 - A yw'r Strategaeth yn ysgogi perchnogaeth sefydliadau y tu hwnt i Lywodraeth Cymru dros ei hamcanion?

- Sut, ac i ba raddau, y mae'r Strategaeth yn cyfrannu at amcanion strategol ehangach Llywodraeth Cymru?
- Sut, ac i ba raddau, mae'r Strategaeth yn cyfrannu at ddealltwriaeth partneriaid a rhanddeiliaid o'u swyddogaethau yn y gwaith o gasglu a dadansoddi data at ddibenion gwerthuso?
- A yw'r trefniadau ariannu sydd mewn lle ar hyn o bryd yn briodol, ac yn ddigonol i alluogi'r newid sydd ei angen?

5. Theori newid Cymraeg 2050

- 5.1 Mae'r theori newid isod yn cyflwyno trosolwg o'r trywyddau rhesymeg a geir o fewn y Strategaeth. Nid yw hon yn theori newid gynhwysfawr ac nid yw'n manylu ar y gweithgareddau a'r allbynnau sy'n gysylltiedig â'r nodau. Ymgais yw hi, yn hytrach, i amlygu'r gydberthynas rhwng y 15 nod o fewn y Strategaeth. Mae'r traweffeithiau a ragdybir wedi eu cysylltu â'r tair thema: cynyddu nifer y siaradwyr, cynyddu defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol.

Diagram 1: Theori Newid Cymraeg 2050



6. Thema 1 – Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Cefndir

Mae'r Thema hon yn ymdrin â sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae'n nodi bod dau brif ddull o wneud hyn:

- “Trosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r llall o fewn y teulu”, a
- “Datblygu a chynnal sgiliau drwy addysg a hyfforddiant, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth yn y Gymraeg i oedolion”. (Llywodraeth Cymru, 2017: 31)

Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod cyfyngiadau i drosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu fel modd o gynyddu nifer siaradwyr, ac mae'n rhoi pwyslais felly ar y system addysg hefyd er mwyn cyfrannu at gyflawni'r targed.

Yn ogystal â chaffael yr iaith yn y lle cyntaf, mae'r Strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal sgiliau ieithyddol pobl ifanc wrth iddynt symud trwy'r system addysg, a sicrhau bod llai o bobl ifanc yn colli eu sgiliau Cymraeg.

Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi'r angen am weithlu addysg â'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol i alluogi'r system addysg a hyfforddiant i greu mwy o siaradwyr Cymraeg.

Targed

Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.

Mae'r targed hwn yn cyfateb i un o ddangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Dangosydd Llesiant 37, 'Nifer y bobl a all siarad Cymraeg'). Bydd y dangosydd hwn yn cael ei ddefnyddio i olrhain cynnydd tuag at y targed.

Nodau

Mae pum nod o fewn y thema hon:

- 1) **Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu:** rhoi'r cychwyn gorau yn yr iaith i'n plant drwy gynyddu cefnogaeth i deuluoedd drosglwyddo'r iaith yn y cartref.
- 2) **Y blynyddoedd cynnar:** ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.
- 3) **Addysg statudol:** creu system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.
- 4) **Addysg ôl-orfodol:** datblygu darpariaeth ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.
- 5) **Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau:** cynllunio er mwyn cynyddu a gwella'n sylweddol:
 - y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
 - yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Un o'r prif ystyriaethau ar gyfer Thema 1 yw bod nifer o'r deilliannau yn rhan o weithgarwch a newidiadau ehangach Llywodraeth Cymru yn y maes addysg a sgiliau. Yn fwyaf allweddol, mae'r rhain yn cynnwys y diwygiadau i'r cwricwlwm a threfniadau asesu, a'r ymateb i bandemig COVID-19. Ceir heriau priodoli deilliannau i raglenni penodol Strategaeth 'Cymraeg 2050', felly. Mae'r canlynol yn bolisiâu, rhaglenni gwaith a diwygiadau y dylid eu hystyried wrth gynnal gwaith ymchwil neu wrth werthuso elfennau o'r Thema hon.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn gofyn am newidiadau trawsnewidiol i ddysgu, addysgu ac asesu, gan gynnwys dysgu, addysgu ac asesu'r Gymraeg. Mae [Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu \(Cymru\) 2021](#) yn parhau i gynnal y Gymraeg ar sail statudol mewn addysg i blant 3-16 mlwydd oed. Mae'r Ddeddf yn nodi'r Gymraeg fel elfen orfodol o fewn y meysydd dysgu a phrofiad. Bydd diwygiadau i gymwysterau o 2025, gan gynnwys newidiadau i'r cymwysterau TGAU Cymraeg.

Nododd cynllun 'Adnewyddu a Diwygio' (Llywodraeth Cymru, 2021b), yn ogystal ag 'Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr: diweddariad ar gyfer Medi 2021' (Llywodraeth Cymru, 2021c), flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi lles a chynnydd dysgwyr mewn ymateb i bandemig COVID-19. Fe wnaeth y rhaglen adnabod dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a oedd yn byw mewn 'cartrefi Saesneg eu hiaith' fel grŵp blaenoriaeth. Mae 'Adnewyddu a diwygio: Cynllun ôl-16 a phontio' yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda darparwyr addysg ôl-16 i gefnogi dysgwyr ac ymarferwyr i symud ymlaen yn dilyn y pandemig (Llywodraeth Cymru, 2021ch).

Ceir ymrwymiad yn y [Cytundeb Cydweithio](#) i gyflwyno Bil Addysg Gymraeg.

Ceir ymrwymiad hefyd yng Nghytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd gan ganolbwyntio ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Dechreuodd cylch presennol y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ym mis Medi 2022. Mae'r Cynlluniau'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol amlinellu sut y byddant yn cyflawni eu swyddogaethau addysg er mwyn gwella'r gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg; i wella safonau addysg cyfrwng Cymraeg, ac i wella addysgu'r Gymraeg yn eu hardal. Disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn dilyn trefniadau newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth o'r Gymraeg.

Mae 'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg' yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn eu cymryd dros y 10 mlynedd nesaf mewn perthynas â phedwar nod (Llywodraeth Cymru, 2022b), sef:

- cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu pynciau eraill;
- cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cefnogi dysgwyr;
- datblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferydd a'i arbenigedd i addysgu'r Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;

- meithrin gallu arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod gan bob arweinydd y sgiliau sydd eu hangen i gynllunio datblygiad y Gymraeg yn strategol o fewn diwylliant o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

Mae 'Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau' yn gynllun i helpu pobl i uwchsgilio, cael mynediad at waith teg a ffynnu, ar gyfer Cymru fwy cyfartal (Llywodraeth Cymru, 2022a). Mae'r Cynllun yn cyfeirio at gyrraedd miliwn o siaradwyr Gymraeg a chynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae nodau'r thema hon yn gyd-ddibynnol, ac mae'n debygol y bydd angen cynnydd mewn un i alluogi cynnydd mewn eraill. Mae gwireddu deilliannau nifer o'r nodau yn ddibynnol ar y gallu i sicrhau lefelau staffio, adnoddau a chymwysterau priodol i ehangu darpariaeth o fewn y systemau addysg. Mae llwyddiant nod y sector statudol (Nod 3) yn dibynnu ar lwyddiant y blynyddoedd cynnar i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg, tra bod gwireddu nod y sector ôl-orfodol yn ddibynnol ar lwyddiant y sector statudol i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus cyn-16.

Ffynonellau data a thystiolaeth

Y brif ffynhonnell ddata ar gyfer mesur cynnydd tuag at darged Thema 1 yw'r [Cyfrifiad](#).

Cwestiynau ymchwil

- I ba raddau mae'r Strategaeth yn cyfrannu at gynnydd yng nghyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd?
- A yw datblygiadau system gyfan, megis cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a threfniadau asesu cysylltiedig, yn cefnogi ac yn ategu amcanion y Strategaeth?
- A yw'r gyfundrefn addysg yng Nghymru yn creu'r amodau angenrheidiol ar gyfer cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus?
- Pa mor effeithiol yw'r Strategaeth o ran darparu cyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion gaffael y Gymraeg am y tro cyntaf?
- I ba raddau mae'r Strategaeth yn galluogi dysgwyr i barhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant ôl-16?
- Pa mor effeithiol yw'r Strategaeth o ran darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg drwy gydol eu hoes?
- A yw'r cynlluniau sy'n cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru i gynyddu a datblygu'r gweithlu addysg yn cynnig y sail angenrheidiol i wireddu nodau a newidiadau trawsnewidiol y Strategaeth?

Nod 1: Trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn datgan fod trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref yn cynnig modd i rieni / gofalwyr roi "sylfaen fuddiol i ddatblygiad ieithyddol eu plant" (Llywodraeth Cymru, 2017: 33). Mae casgliadau Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 a 2019-20 yn dangos bod plant ifanc sy'n dysgu'r iaith adref yn fwy tebygol o fod yn rhugl na'r rhai sy'n dysgu'r iaith yn yr ysgol. Mae'r arolwg hefyd yn dangos bod siaradwyr rhugl yn eu tro yn fwy tebygol o ddefnyddio'r iaith na'r rheiny sydd ddim yn rhugl.

Traweffaith y nod

Plant yn cael y cychwyn gorau yn yr iaith a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth i drosglwyddo'r iaith yn y cartref.

Deilliannau tymor byr

- Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu ymhlith y gweithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â rhieni newydd a darpar rieni.

Deilliannau tymor hwy

- Teuluoedd yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.
- Manteision cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn cael eu hybu ymhlith rhieni a darpar rieni.
- Cyfleoedd i deuluoedd ddysgu Cymraeg.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Yn 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth ei dogfen bolisi Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd. (Llywodraeth Cymru, 2021ff). Y prif ddeilliannau y mae'r polisi yn bwriadu eu cyflawni yw:

- Plant a phobl ifanc yn siarad Cymraeg gyda'u plant yn y dyfodol.
- Ailgynnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sy'n ddi-hyder eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain.
- Defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg yn cael ei annog a'i gefnogi.
- Teuluoedd Cymraeg eu hiaith yn siarad Cymraeg gyda'u plant.

Mae'r Strategaeth yn nodi cyfraddau trosglwyddo ar gyfer tri math o aelwyd gwahanol, yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad: cartrefi pâr lle gall dau oedolyn siarad Cymraeg; cartrefi pâr lle gall o leiaf un oedolyn siarad Cymraeg; a chartrefi rhiant unigol lle gall un oedolyn siarad Cymraeg. Mae'r data hyn ar gyfer plant 3-4 oed.

Mae'r Strategaeth yn cyfeirio at ymchwil sy'n dangos bod trosglwyddo iaith yn fater personol a chymhleth, a'i bod yn bosibl y gall agweddau siaradwyr Cymraeg at ddefnyddio'r Gymraeg newid dros amser (gweler Llywodraeth Cymru, 2017b).

Mae'r Strategaeth hefyd yn pwysleisio'r angen i'r anogaeth a'r gefnogaeth i deuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant fod yn rhan annatod o waith llawer o bobl broffesiynol. Mae'r rhain yn cynnwys bydwagedd, darparwyr gofal sylfaenol a gwasanaethau eraill sy'n dod i gysylltiad â rhieni a darpar rieni.

Rhagdybiaethau

- Bod gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn barod i rannu negeseuon am drosglwyddo'r Gymraeg gyda rhieni / gofalwyr a darpar rieni / ofalwyr, ac yn gallu gwneud hyn yn effeithiol.
- Y bydd rhieni / gofalwyr yn ymateb yn gadarnhaol i'r negeseuon hyn.
- Y bydd trosglwyddo'r Gymraeg i blant yn arwain at fwy o ddefnydd o'r iaith gan y plant

Risgiau

- Nad oes gan rieni a darpar rieni sgiliau ieithyddol sy'n eu galluogi i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant.
- Y bydd amgylchiadau, agweddau a dyheadau yn dylanwadu ar arferion ieithyddol teuluoedd mewn modd sy'n rhwystro trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.

Ffynonellau data

- Cyfrifiad 2011 fel gwaelodlin.
- Cyfrifiad 2021 (sefyllfa wedi 2021 yn ddibynnol ar benderfyniadau'r SYG).
- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).
- Yr Arolwg Defnydd Iaith.

Nod 2: Y blynyddoedd cynnar

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn amlygu pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg drochi, ac fel ffordd o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Strategaeth yn dymuno i blant dan bump oed gael digon o gyswllt â'r Gymraeg i'w dechrau ar eu taith i fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Traweffaith y nod

Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg wedi ei ehangu.

Deilliannau tymor byr

- 150 yn fwy o grwpiau meithrin erbyn 2027.
- 40 grŵp meithrin newydd erbyn 2021 lle mae'r ddarpariaeth yn dameidiog.
- 60 o grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg newydd erbyn 2026 (yn ogystal â'r 40 erbyn 2021).
- Plant mewn lleoliadau ar draws y sector blynyddoedd cynnar yn datblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach.
- Rhieni / gofalwyr yn deall yr amrywiaeth o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar sydd ar gael iddynt.
- Ymarferwyr newydd yn cael eu trochi yn y Gymraeg.
- Gwell cynlluniau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar.

Deilliannau tymor hwy

- Darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu'n sylweddol
- Darparwyr yn hunan-gynhaliol.
- Mwy o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru
- Plant dan 5 oed wedi cael digon o gyswllt â'r Gymraeg i allu dechrau ar eu taith i fod yn siaradwyr rhugl.
- Rhieni / gofalwyr yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am ofal plant
- Gwell ddilyniant rhwng grwpiau meithrin Cymraeg ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Noda'r Strategaeth mai'r sector wirfoddol, o dan adain y Mudiad Meithrin, sydd wedi cynnal gofal meithrin cyfrwng Cymraeg dros y pedwar degawd diwethaf. Mae'r Strategaeth yn datgan bwriad i ffurfioli gofal ac addysg blynyddoedd cynnar ac yn adnabod "gwneud y Gymraeg yn rhan o'r brif ffrwd" fel cyfle i gynnal a chryfhau rôl y sector yn y dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2017: 35).

Mae'r Strategaeth yn nodi hefyd fod y dystiolaeth yn dangos bod bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn rhai mannau o Gymru a bod y dulliau sy'n cael eu defnyddio i asesu'r galw am ddarpariaeth yn y Gymraeg yn amrywio (Llywodraeth Cymru, 2017: 36).

Ceir ymrwymiad yng Nghytundeb Cydweithio Llafur a Phlaid Cymru i ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oedd gan ganolbwyntio ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Nid yw'n glir pa effaith y mae pandemig COVID-19 wedi ei chael ar ddewisiadau ieithyddol rhieni o ran iaith darpariaeth blynnyddoedd cynnar, nac ar y gweithlu gofal plant.

Rhagdybiaethau

- Mai diffyg darpariaeth yw'r brif ffactor sydd yn rhwystro rhieni rhag dewis gofal plant cyfrwng Cymraeg.
- Wrth gynyddu'r ddarpariaeth, y bydd mwy o rieni / gofalwyr yn ei ddewis.
- Na fydd ffactorau megis cost neu leoliad yn rhwystro rhieni / gofalwyr rhag dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Y bydd digon o staff â'r cymwysterau priodol a'r gallu ieithyddol i gynnal y ddarpariaeth ychwanegol.
- Y bydd staff yn manteisio ar y cyfleoedd am hyfforddiant sydd yn cael eu cynnig iddynt.
- Y bydd modd adnabod ble i gynyddu darpariaeth, ac i gynllunio'r ddarpariaeth honno yn unol â'r galw.

Risgiau

- Bod polisïau ehangach y Llywodraeth yn tanseilio gwaith y Strategaeth ynghylch y Gymraeg yn y blynnyddoedd cynnar.
- Nad yw lleoliadau gofal plant newydd yn cael eu datblygu a'u hagor yn strategol, a'u bod yn dyblygu / cystadlu yn erbyn ei gilydd neu'n methu ymateb i dwf mewn galw mewn rhai ardaloedd.

Ffynonellau data

- Data Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (Self Assessment of Service Statement, SASS).
- Dangosfwrdd y Cynnig Gofal Plant (data wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan awdurdodau lleol).
- Data gweinyddol Mudiad Meithrin.

Adroddiadau ymchwil:

- 'Astudiaeth ansoddol o gredoau, ymddygiadau a rhwystrau sy'n effeithio penderfyniadau rhieni o ran gofal plant ac addysg gynnar' (Llywodraeth Cymru, 2021a). Mae'r astudiaeth yn ystyried pam nad yw rhieni plant 3 a 4 oed yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant a chynnig meithrinfeydd cyffredinol y Cyfnod Sylfaen.

Nod 3: Addysg statudol

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn datgan yr angen i "gynyddu'n sylweddol nifer y dysgwyr yn y sector addysg statudol sy'n datblygu sgiliau Cymraeg" (Llywodraeth Cymru, 2017: 37). Mae hyn yn seiliedig ar y ddealltwriaeth fod y system addysg yn offeryn effeithiol ar gyfer cynhyrchu a chynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg.

Mae'r Strategaeth yn datgan y bwriad o symud i broses systematig a rhagweithiol o ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na mesur ac ymateb i alw. Mae'n nodi'r angen am gamau pendant dros 30 mlynedd, ond yn pwysleisio'r angen i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod pump i ddeng mlynedd gyntaf y Strategaeth.

Mae'r Strategaeth yn datgan bod Llywodraeth Cymru am roi'r cyfle i holl ddysgwyr Cymru fod yn ddwyieithog, ac yn nodi y bydd angen, fel rhan o hyn, cynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n llwyddo i ddysgu'r iaith.

Traweffaith y nod

System addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.

Deilliannau tymor byr

- 30 y cant o bob grŵp blwyddyn ysgol yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031.
- Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg, yn y sector cynradd ac uwchradd.
- Llywodraeth Cymru â gwell dealltwriaeth o'r modelau addysg drochi sy'n cynnig y ddarpariaeth fwyaf effeithiol ac yn cynyddu'r ddarpariaeth hon.
- Addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru wedi ei chryfhau.
- Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) yn cael eu cyflawni ym mhob awdurdod lleol.
- Y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi ei chryfhau.

Deilliannau tymor hwy

- O leiaf 70 y cant o ddysgwyr yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol erbyn 2050.
- 40 y cant o bob grŵp blwyddyn ysgol yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2050.
- Mynediad gan yr holl newydd-ddyfodiaid i'r Gymraeg at addysg cyfrwng Cymraeg lle bynnag y maen nhw ar eu taith dysgu.
- Mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy hygyrch a theg.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Mae'r Strategaeth yn datgan "Gan nad oes disgwyl i'r boblogaeth gynyddu'n sylweddol yn ystod cwrs bywyd y Strategaeth, mae'n annhebygol y bydd angen agor nifer helaeth o ysgolion newydd" (Llywodraeth Cymru, 2017: 38). Yn ôl y Strategaeth felly, yr her i awdurdodau lleol yw i ad-drefnu darpariaeth mewn modd sy'n sicrhau, dros amser, fod cyfran uwch o o'r cwricwlwm yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg.

Mae gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r trefniadau asesu perthnasol yn gyd-destun allweddol i'r nod hwn. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn gwneud y Gymraeg yn orfodol i bob dysgwr rhwng 3 a 16 oed, ac mae'r Gymraeg yn cael ei chynnwys fel rhan o nodweddion pedwar diben y Cwricwlwm. Rhennir y Cwricwlwm i Gymru yn chwe Maes Dysgu a Phrofiad, gan gynnwys [Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu](#). Nod y Maes hwn yw datblygu dysgwyr ieithoedd sy'n uchelgeisiol, galluog a hyderus yn y Gymraeg, Saesneg ac o leiaf un iaith ryngwladol. Er mwyn hwyluso dilyniant dysgwyr, bydd gan ysgolion y dewis i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gynyddol fel cyfrwng addysgu a dysgu. Mae datblygu cymwysterau newydd i adlewyrchu dibenion ac ethos y Cwricwlwm i Gymru hefyd yn debygol o effeithio ysgolion a dysgwyr yng Nghymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ffyrdd o nodi cynnydd dysgwyr.

Fe wnaeth cynllun 'Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr' (Llywodraeth Cymru, 2021b), osod ei blaenoriaethau ar gyfer cefnogi lles a chynnydd dysgwyr mewn ymateb i bandemig COVID-19. Adnabuwyd dysgwyr oedd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, ac oedd yn byw mewn cartrefi Saesneg eu hiaith, fel grŵp blaenoriaeth. Fel rhan o'r cynllun, dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid i'r rhaglen 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau' i gefnogi dysgwyr ar bwyntiau tyngedfennol yn eu haddysg, yn ogystal â chefnogi'r dysgwyr mwyaf bregus a'r rhai o dan anfantais. Dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid hefyd i gefnogi ac i ehangu addysg drochi, gan gynnwys trochi hwyr.

Rhagdybiaethau

- Bod modd datblygu sgiliau ieithyddol y gweithlu i gefnogi mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Y bydd gan staff mewn ysgolion ar wahân i ysgolion cyfrwng Cymraeg y sgiliau ieithyddol angenrheidiol i gynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei chynnig.
- Y bydd awdurdodau lleol yn llwyddo i gwrdd â'r targedau yn eu CSCA.
- Y bydd y Cwricwlwm i Gymru yn llwyddo i greu siaradwyr Cymraeg hyderus.

Risgiau

- Y gallai penderfyniadau, darpariaeth neu bolisiau mewn meysydd addysg eraill danseilio'r Strategaeth.

Ffynonellau data

- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).
- Asesiadau athrawon. Bydd asesiadau llinell sylfaen ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (dosbarth derbyn) ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-2022 ac yna byddant yn dod i ben. Bydd asesiadau Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9) ar gael yn 2022 a 2023 (heblaw am ysgolion arbennig) ac wedyn yn dod i ben. Bydd system newydd o asesu ar lefel ysgol a chenedlaethol, yn unol â nodau'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei datblygu i gymryd lle asesiadau llinell sylfaen.
- Data Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru ynghylch [cofrestriadau TGAU Cymraeg](#) a chofrestriadau TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Estyn: adroddiadau blynyddol ac adroddiadau thematig.
- Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD.

O ganlyniad i bandemig COVID-19, ni chasglwyd data am asesiadau athrawon yn 2020 a 2021, a disodlwyd arholiadau gan raddau asesu canolfannau. Bydd angen ystyried hyn wrth gynllunio a chynnal ymchwil sydd yn ddibynnol ar ddata am gyrhaeddiad dysgwyr.

Adroddiadau ymchwil:

- ‘Gwerthusiad o’r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig’ (Llywodraeth Cymru, 2020c). Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad y Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig (Siarter Iaith ysgolion cynradd ac uwchradd, Cymraeg Campus a Chymraeg Bob Dydd) ac yn cyflwyno argymhellion mewn perthynas â datblygu fframwaith cenedlaethol newydd i gwmpasu’r pedair rhaglen. Mae’n cynnwys theorïau newid ar gyfer y rhaglenni, ac fel rhan o hyn, mae’n nodi ffynonellau data.
- ‘Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso diwygiadau i’r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru’ (Llywodraeth Cymru, 2022ch). Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth gwmpasu sy’n ymwneud â gwerthuso’r diwygiadau i’r cwricwlwm a’r trefniadau asesu yng Nghymru. Mae’r adroddiad yn cynnwys theori newid ar gyfer y diwygiadau, yn mapio’r ffynonellau data sydd ar gael, ac yn datblygu blaenoriaethau ar gyfer rhaglen ymchwil a gwerthuso.

Nod 4: Addysg ôl-orfodol

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn nodi bod dros hanner dysgwyr Cymru yn gadael yr ysgol yn 16 mlwydd oed, a'r rhan fwyaf yn symud ymlaen i addysg ôl-orfodol drwy addysg bellach neu ddysgu seiliedig ar waith. Oherwydd hynny, yn ôl y Strategaeth, mae gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ran allweddol i'w chwarae o ran cynnal sgiliau Cymraeg dysgwyr. Er bod rhai ymyriadau ar waith yn y sector, mae'r Strategaeth yn datgan fod angen "newid gêr i ehangu'r cynnig cyfrwng Cymraeg a dwyieithog" (Llywodraeth Cymru, 2017: 41).

Traweffaith y nod

Darpariaeth addysg ôl-orfodol yn cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.

Deilliannau tymor byr

- Llawer mwy o opsiynau ar gael i ddysgwyr o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16.
- Rhagor o ddysgwyr ôl-orfodol wedi eu cofrestru i astudio'n rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Pobl ifanc ac oedolion yn parhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol drwy gydol eu taith addysg.
- Cyfraddau dilyniant ieithyddol uwch rhwng addysg statudol ac addysg ôl-16.
- Mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael mewn addysg bellach (AB).
- Mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn prentisiaethau.
- Addysg ôl-orfodol cyfrwng Cymraeg yn cael ei hyrwyddo.
- Dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith (DSW) yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn eu rhaglen hyfforddiant, ni waeth pa mor rhugl ydynt.
- Mwy o ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni DSW yn cael y cyfle i gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yn y sector addysg uwch (AU).
- Mwy o fyfyrwyr yn astudio credydau trwy'r Gymraeg yn y sector AU.
- Gwell cyfraddau dilyniant ieithyddol i'r sector AU.
- Oedolion o bob gallu ac oedran yn gallu gwella'u sgiliau Cymraeg, ailddechrau astudio'r Gymraeg neu ddysgu o'r newydd.
- Pobl ifanc yn ymwybodol o fanteision parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle a gwerth sgiliau dwyieithog yn y gweithle.
- Pobl ifanc yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio'r iaith yn gyson er mwyn cynnal rhuglder a hyder.

Deilliannau tymor hwy

- Pobl ifanc yn mynd i mewn i'r gweithle yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Y galw cynyddol am weithlu dwyieithog wedi ei ddiwallu.
- Addysg a sgiliau dwyieithog sy'n ymateb i anghenion yr economi.
- Pobl ifanc yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Pobl ifanc yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.
- Oedolion â'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn gymdeithasol neu o fewn y teulu.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Wrth i ddyletswyddau mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg gael eu gosod ar fwy o sefydliadau, noda'r Strategaeth y "bydd angen cynyddu'r nifer o weithwyr dwyieithog i alluogi'r sefydliadau hyn i fodloni eu gofynion ieithyddol" (Llywodraeth Cymru, 2017: 40).

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n gyfrifol am gydlynw'r sector Dysgu Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys pennu cwricwlwm, llunio adnoddau ar gyfer tiwtoriaid, ymchwil, marchnata, a chyfathrebu. Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant, yn arolygu gwaith y Ganolfan a'i darparwyr cyrsiau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bwriad i weithio ar y cyd gyda'r Coleg Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu targedau priodol i gynyddu dilyniant ieithyddol rhwng addysg statudol ac ôl-orfodol. Mae llythyrau grant Llywodraeth Cymru hefyd yn gosod targedau ar gyfer colegau addysg bellach unigol ynghylch darpariaeth Gymraeg a dwyieithog.

Mae cynllun 'Adnewyddu a diwygio: Cynllun ôl-16 a phontio' yn gosod disgwyliad ar ddosbarthiadau chweched dosbarth ysgolion a cholegau addysg bellach i roi blaenoriaeth i gynydd dysgwyr yn Gymraeg, ni waeth beth fo'u cefndir ieithyddol (Llywodraeth Cymru, 2021ch).

Mae datblygiadau arfaethedig y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn debygol o ysgogi newidiadau pellach o fewn y sector ôl-orfodol.

Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ymgynghori gyda chyflogwyr ynghylch eu hanghenion sgiliau, er mwyn datblygu Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol. Mae'r Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau yn rhan o'r sail tystiolaeth ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth addysg bellach.

Rhagdybiaethau

- Mai diffyg darpariaeth Gymraeg / ddwyieithog yw'r rhwystr presennol a phe byddai mwy o ddarpariaeth Gymraeg / ddwyieithog ar gael, byddai mwy o ddysgwyr yn dewis y ddarpariaeth hon.
- Y bydd dysgwyr eisiau parhau i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Y bydd gan ddysgwyr hyder digonol yn eu sgiliau ieithyddol i ddewis parhau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Risgiau

- Y bydd ffactorau eraill megis cyllid neu alw am hyfforddiant / cyrsiau eraill yn gyrru datblygiad darpariaeth addysg ôl-orfodol, heb ystyriaeth o'r angen i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Na fydd myfyrwyr yn dewis i aros yng Nghymru i astudio ar gyfer eu addysg ôl-16 ac uwch.

Ffynonellau data

- Data cofrestriadau Safon Uwch Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg (data CBAC)
- Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (Lifelong Learning Wales Record, LLWR).
- Data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (Higher Education Statistics Agency, HESA).
- Data ynghylch gweithgareddau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

- Data gweinyddol Llywodraeth Cymru ynghylch ymgyrchoedd marchnata i gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o werth sgiliau dwyieithog yn y gweithle.

Nod 5: Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn datgan fod y gweithlu addysg, yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r gweithlu hwn, a'r cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr, yn sail i lwyddiant ehangach yr holl system addysg. Mae'r Strategaeth yn ceisio gosod y sail ar gyfer y nodau eraill drwy gynyddu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod y sgiliau ieithyddol angenrheidiol ganddynt. Mae'r Strategaeth hefyd yn cynnig y gall sicrhau gweithlu â sgiliau ieithyddol cadarn fod yn fodd o "ysbrydoli ac ysgogi dysgwyr" sydd yn "hanfodol i lwyddiant y strategaeth" (Llywodraeth Cymru, 2017: 43). Mae hefyd yn ceisio goresgyn rhwystrau megis yr oedi wrth gyhoeddi adnoddau a'r diffyg ymwybyddiaeth o fodolaeth adnoddau yn y Gymraeg. Mae'r Strategaeth yn nodi bod angen cymwysterau sy'n caniatáu i bobl ifanc "gyfrannau at gymdeithas a bodloni anghenion yr economi" (Llywodraeth Cymru, 2017: 43), gan gynnwys sicrhau bod dewis o gymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Traweffaith y nod

Cynnydd sylweddol yn y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynnydd a gwelliant sylweddol yn yr adnoddau a'r cymwysterau i gefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth.

Deilliannau tymor byr

- Mwy o unigolion yn cymhwyso i allu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector gofal plant.
- 3,900 o athrawon cynradd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031.
- 900 o athrawon uwchradd yn gallu addysgu Cymraeg fel pwnc erbyn 2031.
- 3,200 o athrawon uwchradd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031.
- Mwy o sylw yn cael ei roi i hyfforddiant iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg o safbwynt addysgeg a methodoleg.
- Sgiliau a gwybodaeth y gweithlu yn seiliedig ar dystiolaeth am ddulliau trochi ac addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog effeithiol.
- Mwy o gapasiti gan y sector ôl-16 i ddysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mwy o aseswyr a chymedrolwyr yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mynediad gan ddysgwyr at ystod eang o gymwysterau ac adnoddau cyfrwng Cymraeg.

Deilliannau tymor hwy

- Capasiti ehangach o fewn y system i ddiwallu'r angen i ehangu addysg a hyfforddiant cyfrwng Gymraeg.
- 5,200 o athrawon cynradd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2050.
- 1,200 o athrawon yn gallu addysgu Cymraeg fel pwnc erbyn 2050.
- 4,200 o athrawon uwchradd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2050.
- Capasiti ehangach o fewn y system i wella sut caiff y Gymraeg ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Pob awdurdod lleol yn cynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â'u CSCAau.
- Mwy o athrawon â hyfedredd yn y Gymraeg a'r arbenigedd i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Gweithlu â sgiliau ieithyddol cadarn sy'n gallu ysbrydoli ac ysgogi dysgwyr.
- Cynnydd sylweddol yn nifer y darlithwyr a hyfforddwyr ôl-16 sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mwy o adnoddau digidol a rhyngweithiol yn y Gymraeg.
- Cymru yn parhau i arloesi ym meysydd dysgu ieithoedd, trochi a chefnogi rhieni.
- Cymwysterau sy'n cyd-fynd â'r pwyslais ar siarad a gwrando a defnyddio'r iaith yn y gweithle.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Mae gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn y sector statudol a'r ffaith bod y Gymraeg yn orfodol i ddysgwyr 3-16 oed, yn gyd-destun allweddol, fel y mae datblygiad cymwysterau newydd.

Mae'r strategaeth 'Dewis i Bawb' yn nodi sut y bydd Cymwysterau Cymru yn mynd ati i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg, fel y gall dysgwyr ddilyn cymwysterau yn eu dewis iaith (Cymwysterau Cymru, 2020).

Mae 'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg' yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, mewn partneriaeth â sefydliadau a rhanddeiliaid, er mwyn datblygu'r Gymraeg yn y gweithlu addysg (Llywodraeth Cymru, 2022b).

Mae Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ceisio mynd i'r afael â'r angen i ddatblygu capasiti staff yn y sector ôl-orfodol (Coleg Cymraeg Cenedlaethol, 2019).

Rhagdybiaethau

- Y bydd unigolion yn parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg wrth ddilyn cyrsiau ôl-16 ac AU ac yn ddigon hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Y bydd unigolion sydd yn siarad Cymraeg yn ystyried gyrfa fel athro yn ddeniadol ac yn penderfynu hyfforddi i addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Y bydd ymarferwyr yn dewis datblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Y bydd yr adnoddau newydd yn addas i ymarferwyr a dysgwyr, ac y byddant eisiau eu defnyddio yn hytrach nag adnoddau eraill.

Risgiau

- Na fydd pobl â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol yn dewis bod yn ymarferwyr addysg.
- Y bydd athrawon â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol yn dewis gadael y proffesiwn.

Ffynonellau data

- Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY).
- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion.
- Data Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal.
- Data'r Gwasanaeth Derbyn Prifysgolion a Cholegau (Universities and Colleges Admissions Service, UCAS) ynghylch cofrestradau ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg.
- Data Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ynghylch nifer y myfyrwyr a staff sy'n astudio neu'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Data Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).
- Data monitro 'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg'.
- Data ynghylch gweithgareddau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Chymraeg Gwaith.

Adroddiadau ymchwil:

- 'Gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg' (Llywodraeth Cymru, 2021d). Mae'r gwerthusiad yn archwilio sut, ac i ba raddau, y mae'r Cynllun Sabothol yn cyfrannu at newid yn y modd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu, neu yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu, mewn ysgolion. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys theorïau newid ac fel rhan o hynny ffynonellau data.

7. Thema 2 – Cynyddu defnydd o'r Gymraeg

Cefndir

Mae Thema 2 yn datgan dyhead Llywodraeth Cymru o weld y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel iaith bob dydd mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, gan siaradwyr o bob lefel rhuglder, waeth beth fo'u profiad o gaffael neu ddysgu'r iaith.

Mae'n nodi pwysigrwydd sefydlu arferion defnydd iaith o oedran cynnar o fewn teuluoedd. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg am tro cyntaf drwy ddarpariaeth gofal plant neu addysg, a chynnig cynhaliaeth i siaradwyr newydd. Mae'n amlygu'r angen i gydnabod bod siaradwyr yn cyfathrebu â'i gilydd drwy amrywiaeth o ddulliau, a'r angen i ddeall sut mae arferion a phatrymau byw o ddydd-i-ddydd yn gallu dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol.

Targed

Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.

Mae'r gwaelodlin o 10 y cant o boblogaeth Cymru sydd wedi ei nodi yn y targed yn seiliedig ar ddata Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 (Llywodraeth Cymru, 2015a). Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 roedd 52 y cant o siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg – gostyngiad o'r 62 y cant a welwyd yn Arolygon Defnydd Iaith 2004-06.

Mae'r targed hwn yn cyfateb i un o ddangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Dangosydd Llesiant 36, 'Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o'r iaith'). Bydd y dangosydd hwn yn cael ei ddefnyddio i olrhain cynnydd tuag at y targed.

Nodau

Mae tri nod yn gysylltiedig â'r thema hon:

- 6) **Y gweithle:** cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector.
- 7) **Gwasanaethau:** cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.
- 8) **Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg:** sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Mae'r Strategaeth yn pwysleisio'r gydberthynas rhwng y tair thema strategol, ac yn nodi nad yw galluogi a hwyluso defnydd y Gymraeg yn digwydd mewn gwagle. Ymhlith y ffactorau sydd yn debygol o ddylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg mae gallu neu sgiliau ieithyddol siaradwyr, eu hawydd neu eu parodrwydd i ddefnyddio'r iaith, a'r sefyllfaoedd sydd ar gael

iddynt wneud hynny. Mae'r gyd-ddibyniaeth rhwng Thema 2 a Thema 1 (Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg) yn amlygu sawl ystyriaeth allweddol:

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ceisio hwyluso a chefnogi cynnydd plant a phobl ifanc wrth ddysgu Cymraeg. Mae hyn yn codi cwestiynau allweddol o ran gallu a pharodrwydd siaradwyr i roi eu sgiliau Cymraeg ar waith.

Ers i'r Strategaeth gael ei lansio yn 2017 mae pandemig COVID-19 wedi golygu newidiadau a allai fod yn rhai pellgyrhaeddol i ffyrdd o gymdeithasu, gweithio, a darparu gwasanaethau. Mae'n debygol y bydd dimensiynau sosioieithyddol y ffactorau hyn yn arwain at gwestiynau allweddol o ran hyfywedd y Gymraeg a phatrymau defnydd iaith.

Mae newidiadau mewn demograffeg a chyfansoddiad cymunedau daearyddol yn gallu esblygu drwy fewnfudo ac allfudo, gan newid cyd-destun yr nod.

Ffynonellau data

Yr Arolwg Defnydd Iaith yw'r brif ffynhonnell ar gyfer y targed hwn. Bydd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cael ei ddefnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn y targed yn absenoldeb unrhyw arolwg defnydd iaith, er bod Arolwg Cenedlaethol Cymru yn seiliedig ar bobl 16 oed a throsodd yn unig (h.y. heb gyfrif y rhai 3 i 15 oed).

Cwestiynau ymchwil

- A yw amcanion y Strategaeth o ran hyrwyddo a chynyddu defnydd y Gymraeg mewn gweithleoedd yn ymdrin yn ddigonol â'r newidiadau i drefniadau ac arferion gwaith sydd wedi dod yn sgil COVID-19?
- A yw Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?
- A yw cynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyrchu gwasanaethau yn arwain at gynnydd yn defnydd y Gymraeg?
- Beth yw'r ffactorau sydd yn peri i bobl ddefnyddio neu beidio defnyddio gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?
- A yw'r Strategaeth yn cael ei gweithredu ar sail dealltwriaeth ddigonol o sut mae pobl yn dilyn eu bywydau bob dydd?
- A yw'r ymyriadau sydd â'r nod o hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn cyrraedd y grwpiau targed angenrheidiol?

Nod 6: Y Gweithle

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn cydnabod fod y gweithle yn ganolog i fywydau bob dydd nifer fawr o bobl, ac yn gallu bod yn agwedd bwysig ar ddatblygiad ieithyddol siaradwyr Cymraeg. Mae'r Strategaeth felly yn gweld cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan bwysig o wneud cynnydd tuag at gynyddu defnydd yn gyffredinol.

Traweffaith y nod

Cynnydd yn nefnydd y Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector

Deilliannau tymor byr

- Cynnydd / parhad mewn defnydd rhyngpersonol o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Busnesau cydweithredol a chymdeithasol yn trin y Gymraeg fel rhan ganolog o'u hethos fewnol.
- Hybiau gweithio o bell mewn trefi ar draws Cymru yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gweithio ac iaith y gweithle.
- Gweithlu yn cael ei gynllunio o safbwynt sgiliau iaith a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg.
- Cynnydd yn nifer y gweithleoedd sy'n cynnig cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau Cymraeg.
- Mecanweithiau / gweithdrefnau i gynllunio'r gweithlu yn cael eu datblygu, gan gynnwys rhagweld y galw am sgiliau penodol a'r cyflenwad o sgiliau, recriwtio a chadw staff, cynnal archwiliadau sgiliau a dadansoddi bylchau, er mwyn cynyddu gweithlu dwyieithog.
- Cynnydd mewn sgiliau Cymraeg mewn gweithleoedd.
- Ymwybyddiaeth iaith a chynllunio'r gweithlu yn rhan annatod o wasanaeth y sector cyhoeddus.
- Mwy o gyfathrebu dwyieithog rhwng staff o bob gallu.
- Mwy o ddefnydd o dechnoleg yn Gymraeg yn y gweithle.
- Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl drwy hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan ei gweithlu ei hun.

Deilliannau tymor hwy

- Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg fel iaith gweinyddu mewnol.
- Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithleoedd llywodraeth leol a'r sector iechyd a gofal.
- Cynnydd mewn darpariaeth Gymraeg i gwsmeriaid.
- Dwyieithrwydd yn rhan naturiol o'r gweithle.
- Arweinwyr a rheolwyr yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i gefnogi defnydd y Gymraeg yn y gweithle.
- Newid mewn diwylliant: y manteision o gael gweithlu o fewn yr economi sy'n gynyddol ddwyieithog yn cael eu cydnabod.
- Pob dysgwr yn gadael yr ysgol gyda'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn y gweithle.
- Siaradwyr Cymraeg ar bob lefel yn gallu defnyddio eu sgiliau wrth eu gwaith.
- Gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd y gall technoleg ac adnoddau Cymraeg eu cynnig.
- Mwy o sefydliadau'n cynnwys cydrannau technoleg iaith yn eu cynnyrch.
- Unigolion yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

- Mwy o ddefnydd o dechnolegau iaith newydd i annog mwy o gyfathrebu dwyieithog rhwng staff o bob gallu, gan wneud y Gymraeg yn fwy hygyrch i bawb.
- Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg gan weithlu Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl drwy hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan ein gweithlu ein hunain.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd ar gyfer hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru yn Ebrill 2020 (Llywodraeth Cymru, 2020dd). Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y Llywodraeth yn dod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog dros amser.

Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun ar gyfer cryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol 'Mwy na geiriau, Cynllun Pum Mlynedd, 2022-27' (Llywodraeth Cymru, 2022c).

Yn ogystal â Llywodraeth Cymru ei hun, mae gweithleoedd llywodraeth leol a'r sector iechyd a gofal yn cael eu nodi o fewn y Strategaeth fel rhai allweddol o ran sicrhau cynnydd yn nefnydd y Gymraeg mewn gweinyddu mewnol.

Mae disgwyl i'r sefydliadau hynny sy'n ddarostyngedig i'r Safonau gynllunio eu gweithleoedd yn fwriadus, er mwyn sicrhau fod y sgiliau ieithyddol angenrheidiol ganddynt i ddarparu gwasanaethau.

Rhagdybiaethau

- Bod cyswllt rhwng cynyddu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i gwsmeriaid ar y naill law, a chynyddu defnydd y Gymraeg ar gyfer gweinyddu mewnol ar y llall.
- Bod angen cynyddu'n sylweddol y cyfleoedd i unigolion ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle.
- Bod ymwybyddiaeth iaith yn arwain at newid ymddygiad.

Risgiau

- Na fydd niferoedd digonol o unigolion â'r sgiliau Cymraeg neu'r hyder angenrheidiol i gwrdd â gofynion ieithyddol swyddi.
- Y bydd rheidrwydd i gydymffurfio â gofynion darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn arwain at ddibyniaeth ar gyfieithu a sgiliau iaith Gymraeg niferoedd cyfyngedig o staff, yn hytrach nag at ehangu'r gweithlu â sgiliau yn y Gymraeg a'r hyder i'w defnyddio.
- Y bydd diffyg cynnydd, neu gynnydd annigonol, o ran bwriad Llywodraeth Cymru i arwain drwy esiampl.

Ffynonellau data

- Arolwg Defnydd Iaith.
- Arolwg Cenedlaethol Cymru (National Survey for Wales, NSW).
- Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.
- Adroddiadau Blynyddol 'Cymraeg 2050'.
- Adroddiadau Blynyddol Safonau'r Gymraeg.
- Adroddiadau a data gweinyddol Cymraeg Gwaith.
- Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg.
- Gweler hefyd ffynonellau data addysg a sgiliau (Thema 1).

Adroddiadau ymchwil:

- 'Gwerthusiad o mwy na geiriau, y fframwaith strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-19: Theori Newid (TN)' (Llywodraeth Cymru, 2020e). Mae'r adroddiad yn cyflwyno a thrafod theori newid ar gyfer y fframwaith strategol 'Mwy na geiriau...'. Roedd yr adroddiad yn sail ar gyfer llywio datblygiad fframwaith gwerthuso a'r gwerthusiad terfynol.
- 'Gwerthusiad o Mwy na geiriau ..., y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-19' (Llywodraeth Cymru, 2021dd). Mae'r gwerthusiad yn asesu i ba raddau, a sut, y mae 'Mwy na geiriau...' wedi hyrwyddo a chefnogi defnydd o'r Gymraeg ar draws y sector ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Nod 7: Gwasanaethau

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn nodi bwriad i weld cynnydd yn yr ystod o wasanaethau a gynigir yn y Gymraeg, yn ogystal â'r defnydd a wneir o'r gwasanaethau hynny, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac yn y trydydd sector.

Mae cydnabyddiaeth o rôl bwysig y sector breifat, gan fod unigolion yn delio â busnesau'n rheolaidd, yn broffesiynol ac yn bersonol. Mae'r Strategaeth yn datgan fod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o fewn y gymuned fusnes o'r manteision a'r cyfleoedd posibl a ddaw iddynt hwy a'u cwsmeriaid yn sgil cynnig darpariaeth Gymraeg.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod nad yw sicrhau bod gwasanaeth ar gael yn Gymraeg o reidrwydd yn golygu y bydd pobl yn ei ddefnyddio. Mae cymell unigolion i ddefnyddio'r gwasanaethau yn gofyn am farchnata deallus, a hefyd am ddealltwriaeth o sut i gefnogi defnyddwyr i newid eu harferion.

Traweffaith y nod

Mwy o wasanaethau yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg, a mwy o ddefnydd o wasanaethau Cymraeg.

Deilliannau tymor byr

- Mwy o fusnesau'n cyfathrebu ac yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg.
- Cymorth mwy gweledol ac ymarferol i fusnesau ar faterion megis cynllunio sgiliau Cymraeg.
- Gwella'r cyfathrebu dwyieithog a gynigir gan sefydliadau drwy eu gwasanaethau i gwsmeriaid.
- Marchnata deallus a darparwyr yn cymryd y cyfrifoldeb i gynllunio gwasanaethau mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y cwsmer.
- Gwell dealltwriaeth gan fusnesau ac arweinwyr yn y trydydd sector o ddwyieithrwydd a sut i'w ymgorffori'n rhan hanfodol o'u cynnig i gwsmeriaid.
- Cyrff cyhoeddus yn parhau i ddatblygu a meithrin gallu i gynnig ac o ganlyniad, gwasanaethau Cymraeg.
- Gwasanaethau, capasiti a rôl partneriaid a ariennir gan y Llywodraeth wedi datblygu mewn perthynas â chynnig gwasanaethau a chefnogi amcanion y Strategaeth.
- Parhau â'r gefnogaeth i'r system o osod Safonau ar gyrff cyhoeddus.
- Y ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r Gymraeg wedi ei adolygu, er mwyn sicrhau ei bod yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r iaith.
- Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl drwy hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan y gweithlu.

Deilliannau tymor hwy

- Llai o rwystrau i bobl dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg a darparwyr yn mynd ati'n rhagweithiol i gynnig y Gymraeg yn eang, ac o ansawdd cyfatebol i'r hyn a gynigir yn Saesneg.
- Darparwyr yn gwybod sut i helpu i gynyddu'r defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Crëwyd Comisiynydd y Gymraeg a system o Safonau statudol drwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gyda'r nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg o fewn sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i'r Safonau.

Mae gan y Comisiynydd y dyletswydd i osod a sicrhau cydymffurfiaeth â'r drefn Safonau, a chynghori cyrff ynglŷn a'u defnydd o'r Gymraeg. Gall hyn fod drwy weithgarwch swyddogol, neu'n llai ffurfiol drwy gyfathrebu cyhoeddus neu uniongyrchol â'r ystod o gyrff sydd yn dod o dan ddyletswydd.

Mae 'Strategaeth ddigidol i Gymru' yn datgan gweledigaeth y Llywodraeth i ddatblygu a gwella gwasanaethau cyhoeddus wedi'u dylunio o gwmpas anghenion defnyddwyr, ac mae gwasanaethau ddwyieithog yn rhan bwysig o'r weledigaeth hon (Llywodraeth Cymru, 2021g).

Rhagdybiaethau

- Bod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o fewn y gymuned fusnes o fanteision cynnig darpariaeth Gymraeg.

Risgiau

- Mae ystod o ffynonellau cymorth ar gael i fusnesau a sefydliadau i ddatblygu eu gwasanaethau Cymraeg, a risg y bydd y cymorth yn cael ei ddyblygu.

Ffynonellau data

- Adroddiadau Blynyddol Safonau'r Gymraeg Llywodraeth Cymru (diweddaraf; Llywodraeth Cymru, 2021e).
- Adroddiadau cydymffurfio sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i'r Safonau.
- Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau 5 Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg.
- Adroddiadau Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg.
- Data [Helo Blod](#). Mae hwn yn wasanaeth rhad ac am ddim gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth i fusnesau ac elusennau ar ddefnyddio mwy o Gymraeg. Mae'n cynnig cyfieithiadau a gwirio testun yn bennaf.
- Data Arolwg Cenedlaethol Cymru (National Survey for Wales, NSW).
- Yr Arolwg Defnydd Iaith.
- Adroddiadau Blynyddol 'Cymraeg 2050'.

Adroddiadau ymchwil:

- 'Gwerthusiad o mwy na geiriau, y fframwaith strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-19: Theori Newid (TN)' (Llywodraeth Cymru, 2020e). Mae'r adroddiad yn cyflwyno a thrafod theori newid ar gyfer y fframwaith strategol 'Mwy na geiriau...'. Roedd yr adroddiad yn sail ar gyfer llywio datblygiad fframwaith gwerthuso a'r gwerthusiad terfynol.
- 'Gwerthusiad o Mwy na geiriau ..., y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-19' (Llywodraeth Cymru, 2021dd). Mae'r gwerthusiad yn asesu i ba raddau, a sut, y mae 'Mwy na geiriau...' wedi hyrwyddo a chefnogi defnydd o'r Gymraeg ar draws y sector ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Nod 8: Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn nodi bod sefydlu arferion defnydd iaith o oedran cynnar yn bwysig. "Mae galluogi teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn atgyfnerthu'r hyn sy'n digwydd yn y cartref, ac yn ehangu'r cyd-destunau lle mae plant yn gweld bod y Gymraeg yn rhan berthnasol o'u bywyd bob dydd" (Llywodraeth Cymru, 2017: 55). Er bod y Strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd defnydd y Gymraeg o fewn y teulu, mae hefyd yn nodi fod nifer o blant yn dod i gyswllt â'r iaith am y tro cyntaf drwy ddarpariaeth blynyddoedd cynnar neu addysg. O ganlyniad, mae angen sicrhau bod ystod o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol ar gael i blant a phobl ifanc ddefnyddio a datblygu eu sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Yn ogystal â darparu cyfleoedd penodol i blant a phobl ifanc, mae'r Strategaeth yn cynnig bod angen datblygu mwy o gyfleoedd i bawb i ddefnyddio'r iaith. Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi nad yw pobl, mewn llawer o achosion, yn aelodau o glybiau neu'n mynychu gweithgareddau ffurfiol. O ganlyniad, mae creu'r cyfleoedd newydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy na mater o ddarparu neu drefnu digwyddiadau. Mae'r Strategaeth yn nodi'r angen i ddatblygu "arweinwyr blaengar sy'n deall hanfodion cynllunio ieithyddol" er mwyn hwyluso datblygu'r cyfleoedd newydd hyn i ddefnyddio'r iaith (Llywodraeth Cymru, 2017: 57).

Ceir sylw o fewn y Strategaeth hefyd ynghylch yr angen i greu cyfleoedd i siaradwyr newydd sy'n dysgu Cymraeg fel oedolion i'w defnyddio. Mae'r Strategaeth yn nodi fod yn rhaid i'r cyfleoedd hyn gynnwys siaradwyr sydd eisoes yn rhugl.

Traweffaith y nod

Arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith wedi eu sefydlu, a chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Deilliannau tymor byr

- Plant a phobl ifanc yn gweld bod y Gymraeg yn rhan o'u bywyd bob dydd.
- Mwy o ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc.
- Cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion, sefydliadau ieuencid a grwpiau cymunedol.
- Plant yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.
- Cydgysylltu defnydd y Gymraeg yn yr ysgol, y gymuned ac ymysg teuluoedd.
- Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.
- Deall pryd mae angen cynllunio i greu cyfleoedd penodol i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Sefydliadau'r trydydd sector yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg ac yn denu a chadw gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.
- Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn cynnig argymhellion polisi i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol.
- Darpariaeth ddigidol a ddatblygwyd yn ystod y pandemig yn creu a chynnal cynulleidfaoedd newydd.
- Argymhellion yr Adolygiad o Gynllun Grant Llywodraeth Cymru i hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn cael eu gweithredu.
- Pobl a sefydliadau y tu allan i'r Llywodraeth yn gweithredu fel cymhellwyr annibynnol.
- Siaradwyr rhugl gyda'r sgiliau a'r gallu i gefnogi siaradwyr newydd.

Deilliannau tymor hwy

- Plant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau.
- Pobl ifanc hŷn yn defnyddio'r Gymraeg wrth gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau anffurfiol, wyneb-yn-wyneb a thrwy gyfryngau cymdeithasol.
- Siaradwyr Cymraeg yn gweithredu drostynt eu hunain.
- Siaradwyr newydd yn dod yn siaradwyr rhugl.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Wrth gyflwyno'r nod hwn, mae'r Strategaeth yn amlygu'r cyswllt rhwng tair elfen neu faes blaenoriaeth: darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg; sefydlu a chynnal arferion ieithyddol sydd yn hwyluso defnydd y Gymraeg; a meithrin hyder siaradwyr i roi ar waith y sgiliau maent wedi eu caffael drwy addysg a hyfforddiant.

Nid yw cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o anghenraid yn golygu trefnu digwyddiadau neu achlysuron pwrpasol: mae rhai yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau o ddydd-i-ddydd ac wrth ddefnyddio gwasanaethau. Mae cyswllt clir felly, gyda nodau eraill Thema 2.

Mewn rhai achosion ac ardaloedd, lle nad yw cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn codi yn naturiol neu'n ddi-gymell, mae'r Strategaeth yn disgwyl y bydd angen cynllunio yn fwriadus i annog a darparu cyfleoedd. Er mwyn gwneud hyn, mae'r Strategaeth yn nodi y bydd angen datblygu arweinwyr â phrofiad a dealltwriaeth o gynllunio ieithyddol i ysgogi defnydd y Gymraeg drwy ddulliau ffurfiol ac anffurfiol, yn ddibynnol ar gyfansoddiad ieithyddol yr ardal. Y bwriad yw symud i fwrdd oddi wrth ariannu grwpiau neu sefydliadau o fewn ardal, at sefyllfa lle bydd cymunedau yn cynnal a threfnu gweithgarwch i gynyddu defnydd y Gymraeg. Gwelir cyswllt uniongyrchol yma gyda deilliannau Nod 14 ynghylch cynllunio ieithyddol.

Mae dulliau cyfathrebu rhithiol hefyd yn gallu arwain at newidiadau mewn dulliau cymdeithasu, gan gynnwys creu cymunedau a chynulleidfaoedd newydd. Fodd bynnag, mae sectorau eraill o'r gymdeithas yn gallu cael eu cau allan o gymunedau digidol o'r fath.

Rhagdybiaethau

- Mai'r elfennau creiddiol ar gyfer cynyddu defnydd yw agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg a chyfleoedd i'w defnyddio.
- Y bydd modd esblygu o fodel o noddi sefydliadau i ddarparu neu drefnu digwyddiadau tuag at un lle mae siaradwyr Cymraeg yn derbyn cymorth i greu cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol eu hunain.

Risgiau

- Y bydd arbenigedd a gallu ar hyd gwahanol haenau o gymdeithas yn annigonol i allu gweithredu cynllunio ieithyddol ar y raddfa ac i'r manylder sydd ei angen.

Ffynonellau data

- Arolygon Defnydd Iaith.
- Arolwg Cenedlaethol Cymru (National Survey for Wales, NSW).
- Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.
- Gweler hefyd ffynonellau data addysg a sgiliau (Thema 1).

Adroddiadau ymchwil:

- 'Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: canfyddiadau arolwg' (Llywodraeth Cymru, 2020ch). Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau arolwg i geisio darganfod sut mae COVID-19 a'i gyfyngiadau wedi effeithio ar grwpiau oedd yn darparu cyfleoedd i gymdeithasu, gwirfoddoli a chymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd.
- 'Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned: Astudiaeth Ymchwil' (Llywodraeth Cymru, 2015b). Mae'r gwerthusiad yn archwilio patrymau defnydd iaith mewn cymunedau yng Nghymru a rhai o'r ffactorau sydd yn gysylltiedig â hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae hefyd yn asesu a yw'r mathau o raglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn cwrdd ag anghenion cymunedau.

8. Thema 3 – Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Cefndir

Mae Thema 3 yn amlinellu ystod eang o newidiadau y bwriedir iddynt gefnogi Themâu 1 a 2, drwy osod y seilwaith a'r amodau ffafriol ar gyfer caffael a defnyddio'r iaith. Mae cynnydd Themâu 1 a 2, felly, yn ddibynnol ar yr amodau a'r seilwaith a osodir gan weithgarwch a deilliannau Thema 3. Mae nodau'r thema yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd polisi. Mae rhai nodau'n cyfrannu'n uniongyrchol tuag at nodau penodol eraill o fewn y Strategaeth: mae Nod 9: Cymuned a'r economi, er enghraifft, yn cyfrannu'n uniongyrchol at Nod 7: Y gweithle. Mae nodau eraill, megis Nod 10: Diwylliant a'r cyfryngau, neu Nod 15: Gwerthuso ac ymchwil, yn cyfrannu a chefnogi cynnydd ynghylch pob nod.

Nodau

Nid oes targed meintiol wedi ei bennu ar gyfer Thema 3. Mae'r saith nod yn anelu i greu amodau ffafriol i gefnogi caffael a defnydd iaith.

- 9) **Cymuned a'r economi:** cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg.
- 10) **Diwylliant a'r cyfryngau:** sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod fel rhan annatod o'n diwylliant cyfoes.
- 11) **Cymru a'r byd ehangach:** sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n hymdrechion i greu pontydd rhwng Cymru a'r byd a'i gwneud yn gyfrwng i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru.
- 12) **Technoleg ddigidol:** sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.
- 13) **Seilwaith ieithyddol:** sicrhau bod seilwaith ieithyddol y Gymraeg (geiriaduron, terminoleg, y proffesiwn cyfieithu) yn parhau i ddatblygu ac yn rhan annatod o'r broses o weithredu 'Cymraeg 2050'.
- 14) **Cynllunio ieithyddol:** sefydlu cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol fel elfennau hanfodol, gan ddeall dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn well a'u cefnogi.
- 15) **Gwerthuso ac ymchwil:** parhau i adeiladu ar ein sail tystiolaeth am y Gymraeg a'i siaradwyr fel sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd ein hymyriadau a datblygu polisi ar gyfer y Gymraeg.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach:

Mae Thema 3 yn cwmpasu amrediad eang o feysydd, lle ceir lefelau amrywiol o ffynonellau data a dangosyddion uniongyrchol neu brocsi ar gyfer mesur cynnydd. Mewn rhai achosion bydd prinder data, tystiolaeth ac ymchwil, ond cyfleoedd i ddatblygu'r sail tystiolaeth sydd ar gael hefyd, ac i archwilio perthynas y Gymraeg â'r meysydd y mae'r thema yn eu cwmpasu. Dylid nodi hefyd nad yw deilliannau a thraweffaith y nodau o fewn y thema bob amser yn cael eu mynegi mewn modd sy'n fesuradwy. Mae heriau yn debygol o wynebu ymdrechion i fesur cynnydd a thraweffaith, felly, yn seiliedig ar y sail tystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Bydd datblygu dealltwriaeth o werthusadwyedd y nodau o fewn y Thema, adnabod ffynonellau data a gwaelodlinau priodol, yn ogystal â datblygu'r sail tystiolaeth, yn flaenoriaeth ar gyfer y broses werthuso dros y blynyddoedd nesaf. Ni chyflwynir

rhagdybiaethau, risgiau na ffynonellau data ynghylch nodau 10, 11, 13 ac 14, ac nid oes risgiau wedi eu nodi ar gyfer Nod 12. Nid oes ymgais ychwaith i wahaniaethu rhwng deilliannau tymor byr a thymor hwy yn achos pob nod. Disgwylir y bydd gwerthuswyr yn datblygu'r elfennau hyn fel rhan o'r broses o wella gwerthusadwyedd y nodau, yn ogystal â datblygu'r ddealltwriaeth o'r cyd-destun.

Cwestiynau ymchwil

- A yw nodau'r Thema yn gosod seilwaith cadarn ar gyfer caffael a defnyddio'r Gymraeg?
- A yw'r rhesymeg sy'n tanategu'r amcanion yn ddilys ac yn gadarn?
- A yw'r amcanion yn parhau i fod yn briodol yn sgil ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, a COVID-19?
- A oes ffynonellau data a dangosyddion priodol ar gael, neu sy'n bosibl eu datblygu, er mwyn mesur cynnydd mewn perthynas â'r nodau?

Nod 9: Cymuned a'r economi

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn rhoi sylw i bwysigrwydd cynnal a meithrin cymunedau lle ceir "dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg" (Llywodraeth Cymru, 2017: 61). Yn y cymunedau hyn ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg sy'n disgrifio'u hunain fel siaradwyr rhugl, ac yma y ceir y canrannau uchaf o siaradwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg amlaf.

Mae'r Strategaeth yn nodi fod twf a datblygiad economaidd yn cael ei wasgaru'n anghyfartal i raddau o fewn economi farchnad agored. Noda'r Strategaeth hefyd fod gan y Llywodraeth rôl i'w chwarae drwy roi ffocws rhanbarthol i geisio sicrhau bod pob rhan o Gymru yn elwa o'r twf hwn, mewn modd sy'n cefnogi hyfywedd y Gymraeg. Mae hyn, yn ôl y Strategaeth, yn ffordd o roi "troedle cadarn" i gymunedau lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2017: 61).

Elfen ganolog o'r nod yw cefnogi pobl ifanc yn y cymunedau hyn. Mae'r Strategaeth yn cynnig y bydd hyn yn gofyn am swyddi a gyrfaoedd da sy'n annog pobl ifanc i aros yn eu cymunedau neu i ddychwelyd iddynt, yn ogystal ag anogaeth i ddechrau busnesau. Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi'r angen i ddysgu mwy ynghylch potensial mentrau cydweithredol, a'u cyfraniad i gymunedau a'r Gymraeg.

Mae'r nod hwn hefyd yn rhoi sylw i'r system gynllunio tir, ac yn cynnig y gall penderfyniadau datblygu ddylanwadu'n fawr ar ddefnydd a chynaliadwyedd iaith o fewn cymuned. Mae'r Strategaeth yn datgan fod hyn, o ganlyniad, "yn galw am gryfhau'r berthynas rhwng cynllunio ieithyddol a chynllunio defnydd tir" (Llywodraeth Cymru, 2017: 63).

Traweffaith y nod

Seilwaith economaidd gymdeithasol cymunedau Cymraeg yn cael ei gefnogi.

Deilliannau tymor byr

- Buddiannau'r diwydiant amaeth yn cael eu gwarchod yn sgil ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.
- Siaradwyr Cymraeg yng nghadarnleoedd y Gymraeg a thu hwnt yn cael pob anogaeth i ddechrau busnesau.
- Potensial mentrau cydweithredol cyfrwng Cymraeg wedi eu datblygu er budd ffyniant cymunedau.
- Twf mewn swyddi da (a gyrfaoedd da i ganiatáu i bobl symud o swydd i swydd), sy'n galluogi pobl ifanc i aros yn eu cymunedau neu, os ydynt yn gadael am brofiadau bywyd gwahanol, i ddychwelyd i'r ardaloedd hyn i fyw a magu teulu.

Deilliannau tymor hwy

- Yr economi yn datblygu mewn modd sy'n rhoi troedle cadarn i gymunedau Cymraeg.
- Pwyslais rhanbarthol newydd ym maes datblygu economaidd yn cael ei ddatblygu, i helpu pob rhan o Gymru i ffynnu ac i gefnogi pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth nodweddiadol ei hun.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Mae'r Strategaeth yn datgan fod rôl cymunedau lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn allweddol i hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol. Y cymunedau hyn yw prif ffocws y deilliannau, ac fe diffinnir cymunedau â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg fel a ganlyn:

...yn wledig, ac yn ddibynnol i raddau helaeth ar y diwydiant amaeth, y diwydiant bwyd a thwristiaeth. Yma hefyd y gwelwn drefi marchnad, a threfi prifysgol sydd â dibyniaeth uchel ar y sector cyhoeddus, e.e. gwasanaethau iechyd a llywodraeth leol. Ceir yn yr ardaloedd hyn hefyd bocedi o amddifadedd a thlodi gwledig, a chyflogau cyfartalog sydd ymhlith yr isaf yn y Deyrnas Unedig. (Llywodraeth Cymru, 2017: 62)

Mae ystod o amcanion a blaenoriaethau yn llywio gweithgarwch Llywodraeth Cymru ym meysydd polisi economaidd, cyflogaeth a sgiliau, yr economi ymwelwyr, a'r amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r blaenoriaethau hyn yn ychwanegol i ddeilliannau a thraweffaith y nod, ac yn cael eu mynegi yn y dogfennau strategol canlynol:

- 'Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau' (Llywodraeth Cymru, 2022a).
- 'Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-2025' (Llywodraeth Cymru, 2020f).
- a 'Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 25)' (Llywodraeth Cymru, 2021f).

Ym mis Hydref 2021 cyhoeddodd Gweinidog yr Economi mewn Uwchgynhadledd Economaidd hybrid, ei uchelgais i gefnogi pobl ifanc i deimlo'n hyderus i gynllunio'u dyfodol yng Nghymru yn y datganiad canlynol: [Symud Economi Cymru Ymlaen: "Adferiad Tîm Cymru, a adeiladwyd gan bob un ohonom"](#).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori a chyflwyno [Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg](#) yn ogystal â chyhoeddi [dull tair elfen o roi sylw i'r "argyfwng ail gartrefi"](#).

Mae dwy rhaglen Arfor yn bodoli i "[g]efnogi creu mwy a gwell swyddi yng nghadarnleoedd y Gymraeg, a thrwy hynny gefnogi parhad a thwf y Gymraeg" (Rhaglen Arfor). Bu'r rhaglen gyntaf (2019-21) yn darparu cymorth ariannol i gynnal a threialu rhaglenni i gefnogi busnesau a'r Gymraeg, a lansiwyd rhaglen [Arfor 2 i hybu ffyniant economaidd mewn cymunedau Cymraeg](#) ym mis Hydref 2022.

Sefydlwyd Comisiwn Cymunedau Cymraeg y mis Awst 2022. Mae'r Comisiwn yn cynnwys grŵp o unigolion sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn ystod o feysydd, a bydd yn ceisio cyfrannu at broses y Llywodraeth o ddatblygu polisiâu ar gyfer cynnal yr iaith yn y cymunedau hynny a ystyrir yn draddodiadol yn gadarnleoedd iddi.

Mae gweithgarwch y Llywodraeth ynghylch y nod hefyd yn ddibynnol ar gyrff a sefydliadau eraill yn y maes datblygu economaidd neu gynllunio, megis awdurdodau lleol.

Rhagdybiaethau

- Mai cefnogi a hybu ardaloedd o ddwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yw'r ffordd orau o gefnogi hyfywedd y Gymraeg.
- Bod twf economaidd, cynllunio defnydd tir addas, yn ogystal â chreu swyddi da, yn gyfraniad effeithiol at annog pobl ifanc i aros mewn ardal neu i ddychwelyd iddi.
- Bod annog siaradwyr Cymraeg i aros mewn ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, neu i ddychwelyd iddynt, yn ffordd effeithiol o ddiogelu'r dwysedd o siaradwyr.

Risgiau

- Y bydd blaenoriaethau a pholisïau economaidd, cyflogaeth a sgiliau, yr economi ymwelwyr, a'r amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd yn disodli neu ddadleoli deilliannau a thraweffaith gweithgarwch ynghylch y nod hwn.
- Y bydd sgil-effeithiau newid hinsawdd yn ffactor dylanwadol yng nghyd-destun cymunedau arfordirol a gwledig.
- Y bydd blaenoriaethau ac amcanion economaidd cyrff a sefydliadau y tu hwnt i'r Llywodraeth yn dadleoli neu ddisodli deilliannau gweithgarwch ynghylch y nod.

Ffynonellau data

- Data Cyfrifiad.
- Data Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.
- Achosion prawf o'r system gynllunio gwlad a thref.
- Data ac ystadegau [defnydd tir](#) ac [economi](#).

Adroddiadau ymchwil:

- 'Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau' (Llywodraeth Cymru, 2020a). Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r dystiolaeth am y berthynas rhwng y Gymraeg, ac ieithoedd eraill sydd yn berthnasol i sefyllfa ieithyddol Cymru, a'r economi.
- 'Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector' (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae'r arolwg yn darparu gwybodaeth fanwl am yr angen am sgiliau Cymraeg gan gyflogwyr Cymru ar draws wyth sector.
- Adroddiadau Rhaglen Arfor: ar gael ar [wefan y rhaglen](#). Mae'r rhain yn gasgliad o adroddiadau yn gwerthuso'r rhaglen, yn trafod sefyllfa economaidd-ieithyddol yr ardaloedd o dan sylw, ac yn cynnig argymhellion ynghylch datblygu strategaeth hir dymor.

Nod 10: Diwylliant a'r cyfryngau

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn datgan fod "diwylliant yn ganolog i'n cymdeithas a'n hunaniaeth, a'n hymdeimlad o fod yn genedl" (Llywodraeth Cymru, 2017: 64). Mae diwylliant yn magu hyder, sgiliau a chyflogadwyedd unigolion yn ôl y Strategaeth, ac mae'n "gynyddol bwysig i fywyd cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys economi, iechyd, addysg ac adfywio" (Llywodraeth Cymru, 2017: 64). Mae'r Strategaeth yn nodi'r angen i "[d]athlu ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol a'i harneisio i hybu ffyniant" (Llywodraeth Cymru, 2017:64).

Ceir sylw penodol o fewn y Strategaeth i'r cyfryngau darlledu a'r rôl allweddol y maent wedi ei chwarae o fewn ymdrechion i adfywio'r Gymraeg. Noda'r Strategaeth fod angen i gyfraniad y cyfryngau darlledu barhau, i'r ddarpariaeth Gymraeg gynyddu, ac fod gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae wrth gefnogi a chynyddu'r ddarpariaeth hon, beth bynnag fo'u natur yn y dyfodol. Gan fod yr ymdriniaeth â bywyd a chymdeithas Cymru yn brin yng nghyfryngau print y DU, cynigia'r Strategaeth fod gan ddarlledwyr cyhoeddus swyddogaeth bwysig wrth lenwi'r bwlch hwn.

Traweffaith y nod

Y Gymraeg yn cael ei gwarchod fel rhan annatod o'n diwylliant cyfoes.

Deilliannau

- Iaith a diwylliant unigryw Cymru yn cael ei gyfleu mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb dinasyddion Cymru, ac yn denu pobl i ymweld â Chymru neu i astudio neu fyw yng Nghymru.
- Delwedd o Gymru sy'n cael ei chyfleu yng nghyfryngau'r DU yn adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol a chyfoeth Cymru – sydd yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Mwy o ddarpariaeth Gymraeg o fewn y cyfryngau darlledu, beth bynnag fo natur darpariaeth yn y dyfodol.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Mae dogfen strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr economi ymwelwyr, 'Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025', yn alinio ei gweledigaeth gydag amcanion 'Cymraeg 2050'. Mae'r ddogfen yn nodi'r cysylltiadau agos rhwng twristiaeth, diwylliant, ac iaith, ac mae'n nodi ymrwymiad y Llywodraeth i "warchod a hyrwyddo ein naws am le, ein diwylliant a'n hiaith yn ein holl weithgareddau yn y dyfodol" (Llywodraeth Cymru, 2020h: 39).

Mae ystod o unigolion a sefydliadau yn weithgar yn y maes diwylliant a'r cyfryngau. Mae'n bosibl fod gan bob un o'r rhain y potensial i ddylanwadu ar y maes i ryw raddau. Mae'r rhain yn cynnwys artistiaid, darlledwyr a chyfryngau o bob math ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac y tu hwnt i Gymru.

Mae dylanwad Llywodraeth Cymru wedi ei gyfyngu i sefyllfaoedd penodol, megis amodau grantiau neu nawdd, neu drwy ddeddfwriaeth, caffael, a rheoliadau sy'n ymwneud â darlledwyr a gweithgarwch diwylliannol.

Mae [Cymru Greadigol](#) yn asiantaeth Llywodraeth Cymru a sefydlwyd yn 2020 i gefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Ei nod yw cefnogi'r sectorau creadigol i sbarduno twf yn yr economi. Ei phrif swyddogaethau yw cysylltu pobl a busnesau i feithrin cyfleoedd newydd; darparu gwybodaeth ac adnoddau i ddatblygu sgiliau'r gweithlu a chefnogi gweithwyr dan hyfforddiant; a buddsoddi mewn syniadau a phobl i helpu'r economi greadigol i ffynnu.

Mae [Cyngor Celfyddydau Cymru](#) yn elusen annibynnol sy'n ariannu, datblygu a chefnogi'r celfyddydau yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn dosbarthu arian gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol, yn bennaf i artistiaid a sefydliadau celfyddydol sy'n gweithio ledled Cymru. Yn [llythyr cylch gwaith](#) Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y cyfnod 2021-2026, mae yna ofyn i'r sefydliad i ymateb i 'Cymraeg 2050' drwy barhau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg, a thrwy greu amodau ffafriol lle gall y Gymraeg ffynnu.

Mae [Amgueddfa Cymru](#) a [Llyfrgell Genedlaethol Cymru](#) hefyd, drwy eu llythyrau cylch gwaith ar gyfer 2021-26, wedi eu cyfarwyddo i ymateb i 'Cymraeg 2050'.

Nid oes rhagdybiaethau, risgiau na ffynonellau data wedi eu cynnwys ar gyfer y nod hwn. Disgwylir y bydd gwerthuswyr yn datblygu'r elfennau hyn wrth fynd ati i roi sylw i werthusadwyedd y nod a'r Strategaeth yn ehangach.

Nod 11: Cymru a'r byd ehangach

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn gweld y Gymraeg fel rhan o "blethwaith cyfoethog o ieithoedd sydd, drwy gydol hanes, wedi datblygu, cydfodoli ac esblygu", ond hefyd "bod y Gymraeg mewn sefyllfa gref o'i chymharu â llawer o ieithoedd eraill" (Llywodraeth Cymru, 2017: 67). Yn ôl y Strategaeth, mae ymgysylltu yn rhyngwladol yn fodd o godi proffil y Gymraeg, ac yn rhan o broses o ddysgu gwersi ac adnabod arferion da gan gynllunwyr iaith o wledydd eraill.

Mae'r Strategaeth hefyd yn gweld budd o gynyddu apêl Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr. Noda'r Strategaeth y bwriad o glymu'r iaith yn agosach i weithgarwch "brand Cymru", y brand unedig ar gyfer hyrwyddo Cymru gartref a dramor. Mae hyn yn cynnwys pwysleisio'r "ymdeimlad o le" a "hyrwyddo Cymru fel cenedl ddwyieithog" (Llywodraeth Cymru, 2017: 67-68).

Mae'r uchelgais i "normaleiddio'r iaith ac adeiladu ar ewyllys da tuag ati" hefyd yn un a gyflwynir fel rhan o'r nod hwn (Llywodraeth Cymru, 2017: 68). Mae hyn yn ymwneud â'r weledigaeth o normaleiddio ac adeiladu ewyllys da tuag at yr iaith, yn arbennig mewn perthynas â mewnfudwyr. Mae'r Strategaeth yn awgrymu bod modd defnyddio'r gweithle i gyflwyno'r Gymraeg i fewnfudwyr, codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant ac i roi cyfleoedd iddynt i ddysgu a defnyddio'r iaith.

Traweffaith y nod

Y Gymraeg yn rhan ganolog o ymdrechion y Llywodraeth i greu pontydd rhwng Cymru a'r byd ehangach, ac yn gyfrwng i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru.

Deilliannau tymor byr

- Cymru yn flaenllaw mewn rhwydweithiau rhyngwladol ar gyfer hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol.
- Hybu'r Gymraeg ar lwyfan byd-eang drwy holl ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu'r Llywodraeth.
- Y Gymraeg yn rhan weladwy o 'Frاند Cymru'.
- Yr iaith yn offeryn i hyrwyddo integreiddio ac yn cael ei defnyddio i gofleidio amlddiwyllianedd ac amrywiaeth.

Deilliannau tymor hwy

- Pontydd wedi eu codi rhwng Cymru a'r byd ehangach.
- Cymru a'r Gymraeg yn cael eu marchnata i'r byd ehangach.
- Pobl sy'n symud i Gymru yn cael eu croesawu a'u cymhathu.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Mae gan Lywodraeth Cymru 'Strategaeth ryngwladol i Gymru', sy'n cwmpasu gweithgarwch ehangach Llywodraeth Cymru yn rhyngwladol (Llywodraeth Cymru, 2020b).

Datblygwyd gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr economi ymwelwyr gyda'r diwydiant ac fe'i cyflwynir mewn dogfen strategol, 'Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr' (Llywodraeth Cymru, 2020f). Mae'r ddogfen hefyd yn

nodi blaenoriaethau Croeso Cymru, a blaenoriaethau masnachol a llesiant y Llywodraeth mewn perthynas â'r economi ymwelwyr.

Mae'r Llywodraeth yn aelod neu'n cyfrannu i fudiadau a sefydliadau rhyngwladol megis yr British Irish Council a'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol.

Nid oes rhagdybiaethau, risgiau na ffynonellau data wedi eu cynnwys ar gyfer y nod hwn. Disgwylir y bydd gwerthuswyr yn datblygu'r elfennau hyn wrth fynd ati i roi sylw i werthusadwyedd y nod a'r Strategaeth yn ehangach.

Nod 12: Technoleg ddigidol

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn nodi bod technoleg ddigidol wedi gweddnewid y ffordd rydym yn byw ein bywydau, a bod hyn yn debygol o barhau yn y dyfodol, gan ddylanwadu ar y ffyrdd y mae pobl yn cyfathrebu. Mae'r Strategaeth yn tynnu sylw at yr angen i fuddsoddi mewn datblygiadau technoleg Cymraeg er mwyn sicrhau fod modd defnyddio'r Gymraeg yn y cyd-destunau hyn (Llywodraeth Cymru, 2017: 70).

Traweffaith y nod

Y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol, a'i bod yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.

Deilliannau tymor byr

- Cymru yn arwain y ffordd o safbwynt technolegau dwyieithog ac amlieithog gyda'r nod o gyfrannu at dwf y sector technoleg ddigidol yng Nghymru ac yn rhyngwladol.
- Cwmnïau mawr yn gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, ac yn cefnogi ei datblygiad.

Deilliant tymor hwy

- Tirwedd digidol Cymru wedi ei weddnewid gyda phwyslais arbennig ar dechnolegau iaith.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Mae 'Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg' yn cyflwyno sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod mwy o adnoddau digidol ar gael i gefnogi defnyddio'r Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae'r cynllun yn cyflwyno'r datblygiadau technolegol a fydd yn galluogi'r Gymraeg i gael ei defnyddio ym mhob cyd-destun digidol.

Mae'r 'Strategaeth ddigidol i Gymru' yn cyflwyno sut y bydd y Llywodraeth yn defnyddio technoleg ddigidol a data i wella bywydau pobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu gwasanaethau dwyieithog o'r dechrau a'i gwneud yn haws i bobl allu defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2021g).

Mae datblygiadau technolegol yn digwydd o fewn cwmnïau sy'n gweithredu yn rhyngwladol, yn ogystal â thrwy arloesi gan fusnesau bach, prifysgolion, gwasanaethau cyhoeddus ac unigolion ar lefel leol. Mae amrywiaeth o gyfleoedd i'r Gymraeg gael ei chynnwys o fewn datblygiadau technolegol felly, hyd yn oed drwy feddalwedd a thechnolegau a ddatblygir mewn gwledydd eraill.

Mae gweithlu Cymru y tu hwnt i weithwyr allweddol wedi gweithredu'n rhithiol oherwydd COVID-19, ac yn ddibynol ar dechnoleg am gyfnodau estynedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei huchelgais hirdymor i weld [oddeutu 30% o weithwyr Cymru yn gweithio o gartref neu yn agos at eu cartrefi](#). Mae'r datblygiadau hyn yn cynnig fod patrymau gweithio yn gallu, ac o bosib wedi newid yng Nghymru.

Rhagdybiaethau

- Bod modd sicrhau, a pharhau i sicrhau, fod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol.
- Bod technoleg ddigidol yn hwyluso caffael a / neu defnydd o'r Gymraeg, ac nid yn disodli'r angen / galw am sgiliau iaith yn y gweithle.

Risgiau

- Nid oes risgiau penodol wedi eu hadnabod ar gyfer y nod hwn. Disgwylir y bydd gwerthuswyr yn datblygu'r elfen hon wrth fynd ati i roi sylw i werthusadwyedd y nod a'r Strategaeth yn ehangach.

Ffynonellau data

- 'Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg: adroddiad cynnydd 2020' (Llywodraeth Cymru, 2020d). Mae'r adroddiad hwn yn craffu ar gynnydd mewn perthynas â phecynnau gwaith Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg Llywodraeth Cymru rhwng ei gyhoeddi ym mis Hydref 2018 a diwedd 2020.

Nod 13: Seilwaith ieithyddol

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn datgan yr angen i gynnal seilwaith ieithyddol modern fel corpora,⁴ geiriaduron ac adnoddau terminoleg. Mae'r Strategaeth yn nodi fod seilwaith ieithyddol yn cefnogi cyfieithwyr, geiriadurwyr a therminolegwyr. Yn ogystal â'r seilwaith hwn, mae'r Strategaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd strategol y proffesiwn cyfieithu fel modd o sicrhau fod y Gymraeg "yn rhan normal o gynifer o agweddau ar fywyd â phosibl dros amser" (Llywodraeth Cymru, 2017: 72). Mae'r Strategaeth yn rhagweld yr angen am gyflenwad parod o gyfieithwyr galluog a chymwysedig i gefnogi cynnydd yn y gwasanaethau Cymraeg ymysg sefydliadau yng Nghymru, a'r defnydd ohonynt.

Traweffaith y nod

- Seilwaith ieithyddol y Gymraeg (geiriaduron, terminoleg, y proffesiwn cyfieithu) yn parhau i ddatblygu ac yn rhan annatod o'r broses o weithredu 'Cymraeg 2050'.

Deilliannau tymor byr

- Ffynonellau safonol o derminoleg yn bodoli, sy'n ei gwneud yn haws i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd, gan gynnwys mewn meysydd arbenigol fel technoleg, y gyfraith, a'r byd addysg.
- Cyflenwad parod o gyfieithwyr proffesiynol ac ieithyddion graddedig yn bodoli, sydd â sgiliau modern, a gefnogir gan drefn achredu a rheoleiddio gadarn sy'n seiliedig ar safonau ac ymddygiad proffesiynol.
- Sylfaen sgiliau'r cyfieithwyr a'r ystod o wasanaethau a gynigir gan ieithyddion mewn ymateb i'r cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg wedi ehangu.

Deilliannau tymor hwy

- Cwmnïau a sefydliadau sy'n chwilio am wasanaethau cyfieithu yn dangos hyder yn y gwasanaethau sydd ar gael.
- Rôl y cyfieithydd proffesiynol wedi ei fireinio.
- Technoleg awtomeiddio a hwyluso cyfieithu yn cael eu defnyddio i'r eithaf er mwyn cynorthwyo cyfieithwyr dynol.

Ystyriaethau a chyd-destun ehangach

Mae 'seilwaith ieithyddol' yn cyfeirio at y corpora, geiriaduron ac adnoddau terminoleg eraill sydd yn, fel yr awgryma'r Strategaeth; "sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n iaith fodern a pherthnasol" (Llywodraeth Cymru, 2017: 72). Mae'r seilwaith hwn yn arbennig o bwysig i gyfieithwyr, geiriadurwyr a therminolegwyr o safbwynt proffesiynol, yn ogystal ag i unrhyw un sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd neu'n dysgu'r iaith.

Mae'r Strategaeth yn nodi pwysigrwydd ffynonellau geiriadurol o ansawdd uchel fel modd o gefnogi ymdrechion i fabwysiadu a defnyddio'r Gymraeg ar draws sawl agwedd o fywyd Cymru. Tynnir sylw arbennig at addysg, gan awgrymu cysylltiad cryf â Thema gyntaf y

⁴ Casgliad mawr o destunau wedi'u hargraffu neu recordiadau sain.

Strategaeth. Tynnir sylw hefyd at bwysigrwydd seilwaith ieithyddol ar gyfer technoleg, gan awgrymu cyswllt pellach â Nod 12: Technoleg ddigidol.

Mae'r Strategaeth yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer y proffesiwn cyfieithu yn hwyluso'r broses o normaleiddio'r Gymraeg o fewn cymaint o agweddau o fywyd â phosibl. Mae'r weledigaeth yn cyd-fynd gyda chydabyddiaeth y bydd technoleg a gallu cyfieithu peiranyddol yn datblygu dros amser. Oherwydd hyn, mae'r Strategaeth yn cydnabod yr angen i'r proffesiwn barhau i ymateb i ofynion sgiliau a newid technolegol, yn ogystal â newidiadau i natur rôl y cyfieithydd wrth i'r Gymraeg gael ei normaleiddio yn gynyddol o fewn cymaint o agweddau ar fywyd â phosibl.

Nid oes rhagdybiaethau, risgiau na ffynonellau data wedi eu cynnwys ar gyfer y nod hwn. Disgwylir y bydd gwerthuswyr yn datblygu'r elfennau hyn wrth fynd ati i roi sylw i werthusadwyedd y nod a'r Strategaeth yn ehangach.

Nod 14: Cynllunio ieithyddol

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn nodi fod nifer o ymyriadau arfaethedig yn galw am gynllunio a dealltwriaeth o gynllunio ieithyddol ar wahanol lefelau. Mae'r Strategaeth yn nodi fod y Llywodraeth eisoes yn cynllunio ar lefel genedlaethol, ac awdurdodau lleol yn cynllunio wrth gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Ond mae'r Strategaeth yn cynnig bod lle i gynllunio ar lefel rhanbarthol hefyd. Bwriad y nod hwn, felly, yw ceisio "sefydlu cynllunio ieithyddol" yn genedlaethol, rhanbarthol ac yn lleol (Llywodraeth Cymru, 2017: 76).

Er mwyn cynllunio a gweithredu'n effeithiol ar yr ystod hwn o lefelau, mae'r Strategaeth yn nodi fod "angen pobl greadigol a thalentog yn y mannau cywir, sydd â dealltwriaeth o ddamcaniaethau ac egwyddorion cynllunio ieithyddol, i yrru pethau yn eu blaenau" (Llywodraeth Cymru, 2017: 75). Mae arweinwyr yn cael eu hadnabod fel unigolion sydd yn ganolog i feithrin amgylchedd lle mae defnyddio'r Gymraeg yn cael ei annog.

Traweffaith y nod

- Cynllunio ieithyddol ac ymdrechion i hybu'r iaith wedi eu sefydlu fel elfennau hanfodol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae hyn yn cynnwys gwell dealltwriaeth o ddwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg, a gwell cefnogaeth iddynt.

Deilliannau tymor byr

- Gwell dealltwriaeth o'r gwahanol amgylchiadau mewn gwahanol rannau o Gymru ac ymyriadau yn cael eu cynllunio'n unol â hynny.
- Y gallu i gynllunio ieithyddol yn cael ei feithrin ar wahanol lefelau (drwyddi draw yn y sector cyhoeddus).

Deilliannau tymor hwy

- Cynllunwyr ieithyddol yn dylanwadu i wneud gwahaniaeth.
- Arweinwyr yn meithrin amgylchedd lle mae defnyddio'r Gymraeg yn cael ei annog ar bob lefel, boed yn wleidyddol, mewn cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus, neu yn y gweithle a'r economi.
- Rhaglen genedlaethol yn cynyddu dealltwriaeth o ddwyieithrwydd.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Mae'r rhesymeg a'r theori sydd ymhlyg yn y Strategaeth yn awgrymu bod y nod hwn yn cefnogi holl weithgarwch Themâu 1 a 2, yn ogystal ag agweddau o Thema 3. Mae hyd a lled gweithgarwch y nod hwn, felly, yn arbennig o eang. Mae llwyddiant mewn perthynas â'r ddwy thema arall yn dibynnu ar y graddau y mae cynllunio a hyrwyddo ieithyddol wedi ei wreiddio ar draws ystod o lefelau a sefydliadau yng Nghymru.

Nid oes rhagdybiaethau, risgiau na ffynonellau data wedi eu cynnwys ar gyfer y nod hwn. Disgwylir y bydd gwerthuswyr yn datblygu'r elfennau hyn wrth fynd ati i roi sylw i werthusadwyedd y nod a'r Strategaeth yn ehangach.

Nod 15: Gwerthuso ac ymchwil

Rhesymeg

Mae'r Strategaeth yn datgan yr angen am sail tystiolaeth gadarn ac ymrwymiad i werthuso effeithiolrwydd y rhaglenni a'r ymyriadau sydd ar waith i gynyddu nifer siaradwyr a defnydd y Gymraeg. Mae'n cydnabod fod angen datblygu'r wybodaeth a'r data sydd ar gael ynghylch profiadau ac arferion ieithyddol siaradwyr ac y bydd hyn yn "galluogi [y Llywodraeth] i ddatblygu polisïau ystyrion a chadarn" (Llywodraeth Cymru, 2017: 77). Mae'r Strategaeth yn cyfeirio'n benodol at yr angen i ddeall gwahanol gyfnodau bywyd unigolion mewn perthynas â chaffael a defnydd iaith. Mae ymrwymiad i barhau i fireinio a datblygu dealltwriaeth y Llywodraeth o ddeinameg ymddygiad ieithyddol a chymdeithaseg iaith er mwyn cefnogi ymdrechion i gyflawni amcanion y Strategaeth.

Mae'r Strategaeth hefyd yn datgan fod gan y Llywodraeth gyfraniad i'w wneud wrth "hybu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng tystiolaeth a datblygu polisi effeithiol [...] gan annog ein partneriaid a llunwyr polisi i ddefnyddio ymchwil mewn ffordd ddeallus a chwilfrydig" (Llywodraeth Cymru, 2017: 78).

Traweffaith y nod

Sail tystiolaeth am y Gymraeg a'i siaradwyr yn tyfu ac yn sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd ymyriadau Llywodraeth Cymru a datblygu polisi ar gyfer y Gymraeg.

Cyd-destun ac ystyriaethau ehangach

Mae ymchwil a gwerthuso yn cyfrannu i sail tystiolaeth gadarn ac ymrwymiad i werthuso effeithiolrwydd rhaglenni ac ymyriadau sy'n ymwneud â phob nod o fewn y Strategaeth. Dylid ystyried cyfraniad gweithgarwch y nod hwn i nodau eraill felly.

Mae'r Strategaeth yn datgan yr angen i feithrin arbenigedd ymchwil ynghylch ymddygiad ieithyddol a chymdeithaseg iaith, ac i adlewyrchu hyn drwy waith ymchwil a gwerthuso'r Llywodraeth.

Mae cydnabyddiaeth o fewn y Strategaeth fod gwireddu amcanion y nod yn ddibynnol ar gydweithrediad nifer o asiantaethau a sefydliadau, ac mae gan y sector addysg uwch rôl allweddol.

Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod yr angen i feithrin gallu ac arbenigedd i wneud gwaith ymchwil am y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Mae bwriad felly y bydd y broses o gynnal a chomisiynu ymchwil a gwerthusiadau yn annog sefydliadau a chyrff ymchwil y tu hwnt i'r Llywodraeth i fanteisio ar gyfleoedd i gryfhau'r seilwaith ymchwil, ac i feithrin arbenigwyr ac ymchwilwyr y dyfodol.

Rhagdybiaethau

- Bod y wybodaeth a'r canfyddiadau a gynhyrchir gan y gwaith ymchwil a gwerthuso yn cael eu defnyddio'n effeithiol i lywio'r broses o lunio polisïau.
- Y bydd cyllid ac adnodd ar gyfer gwaith ymchwil a gwerthuso mewn perthynas â holl nodau 'Cymraeg 2050', a'r Strategaeth yn ei chyfanrwydd.

Risgiau

- Y bydd cyllid ac adnodd digonol ar gael i weithredu rhaglen ymchwil a gwerthuso gynhwysfawr ar gyfer 'Cymraeg 2050'.

Ffynonellau data

- Mae gweithgarwch ymchwil ac ystadegau Llywodraeth Cymru yn cael eu cyhoeddi ar [wefan y Llywodraeth](#).

9. Llyfryddiaeth

Coleg Cymraeg Cenedlaethol. (2019). Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Ar gael: [Cymraeg 2050 \(colegcymraeg.ac.uk\)](http://colegcymraeg.ac.uk).

Cymwysterau Cymru. (2020). Dewis i Bawb: Ein strategaeth ar gyfer cynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg 2020-25. Ar gael: [Dewis i Bawb \(PDF\)](#)

Llywodraeth Cymru. (2012). Iaith fyw: iaith by Strategaeth y Gymraeg 2012-17. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael at: [Strategaeth y Gymraeg 2012 i 2017 \(iaith fyw: iaith byw\). | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2013). Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Fframwaith gwerthuso strategaeth y Gymraeg: Fframwaith gwerthuso strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2014). Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2015a). Defnydd y Gymraeg yng Nghymru, 2013 i 2015. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Arolwg defnydd iaith: 2013 i 2015 | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2015b). Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned: Astudiaeth Ymchwil. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Fframwaith gwerthuso strategaeth y Gymraeg: defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2017). Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2017b). Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2018). Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Cynllun gweithredu ar gyfer technoleg Cymru a chyfryngau digidol | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2020a). Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Y Gymraeg a'r economi | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2020b). Strategaeth Ryngwladol i Gymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Strategaeth ryngwladol i Gymru | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2020c). Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Gwerthusiad o'r Siarter Iaith | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2020ch). Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: canfyddiadau arolwg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: canfyddiadau arolwg | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2020d). Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg: adroddiad cynnydd 2020. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg: adroddiad cynnydd 2020 | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2020dd). Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd | LLYW.CYMRU.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2020e). Gwerthusiad o mwy na geiriau, y fframwaith strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-19: Theori Newid (TN). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Gwerthusiad o Mwy na geiriau: theori newid | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2020f). Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025 | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2021a). Astudiaeth ansoddol o gredoau, ymddygiadau a rhwystrau sy'n effeithio penderfyniadau rhieni o ran gofal plant ac addysg gynnar. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Credoau rhieni, eu hymddygiadau a'r rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu: gofal plant ac addysg gynnar | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2021b). Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2021c). Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr: Diweddariad ar gyfer Medi 2021. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr: diweddariad ar gyfer Medi 2021 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2021ch). Adnewyddu a diwygio: Cynllun ôl-16 a phontio. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2021d). Gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2021dd). Gwerthusiad o Mwy na geiriau ..., y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-19. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Gwerthusiad o Mwy na geiriau: adroddiad terfynol | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2021e). Adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg 2020 i 2021. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg 2020 i 2021 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2021f). Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 25). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 \(2021 i 25\) | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2021ff). Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2021g). Strategaeth ddigidol i Gymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Strategaeth ddigidol i Gymru | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2022a). Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2022b). Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2022c). Mwy na geiriau, Cynllun Pum Mlynedd, 2022-27. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Mwy na geiriau: Cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal Cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru. (2022ch). Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

Mayne, J. (2011). "Contribution Analysis: 'Addressing Cause and Effect'" yn K. Forss, M. Marra and R. Schwartz (gol.). Evaluating the Complex, Transaction Publishers; Piscataway, New Jersey

Mayne, J. (2017). "Theory of change analysis; Building robust theories of change". Canadian Journal of Program Evaluation / La Revue canadienne d'évaluation de programme 32.2 (Fall / automne). pp. 155–173

Pujolar, J. a Puigdevall, M. (2015). "Linguistic mudes: how to become a new speaker in Catalonia", International Journal of the Sociology of Language, 231: tt. 167–187.

Strubell, M. (2001). 'Catalan A Decade Later', yn Fishman, J. A. (gol.), Can Threatened Languages be Saved? Reversing Language Shift, Revisited: A 21st Century Perspective (tt. 260–283). Clevedon, Lloegr: Multilingual Matters

Trysorlys Ei Mawrhydi. (2020). Magenta Book: Central Government guidance on evaluation. Ar gael: [The Magenta Book - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

Trysorlys Ei Mawrhydi. (2022). The Green Book: Central Government Guidance on Appraisal and Evaluation. Ar gael: [The Green Book \(2022\). - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

Atodiad A: Ffynonellau Data

Ffynhonnell	Trosolwg	Data	Amllder	Dolen
Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth	Mae Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Annual Population Survey, APS) yn arolwg ledled y Deyrnas Unedig a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn cyfuno samplau manylach o'r Arolwg o'r Llafurlu (Labour Force Survey, LFS). Mae'n darparu data am y farchnad lafur dros bedwar chwarter treigl ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU a hefyd ar gyfer ardaloedd lleol.	Mae'r Arolwg yn cael ei lunio o gyfweiliadau ar gyfer yr Arolwg o'r Llafurlu. Yng Nghymru, mae cwestiynau wedi'u cynnwys yn Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar allu pobl yn y Gymraeg a pha mor aml y maent yn ei siarad. Ar gyfer Cymru, mae'r APS yn cynnwys sampl o tua 18,000 o aelwydydd bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r canlynol ynghylch y data ar y Gymraeg: Diweddariad gan y Prif Ystadegydd: trafodaeth am ddata ar y Gymraeg sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Blog Digidol a Data (llyw.cymru).	Chwarterol	Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth LLYW.CYMRU

Arolwg Cenedlaethol Cymru	Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru (National Survey for Wales, NSW) yn cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Chyngor Celfyddydau Cymru. Nod Arolwg Cenedlaethol Cymru yw meithrin dealltwriaeth well o fywyd yng Nghymru er mwyn helpu i wella gwasanaethau ledled y wlad.	Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau ynghylch a yw pobl yn gallu siarad Cymraeg, pa mor aml maen nhw'n gwneud hynny, a'u lefel rhuglder. Mae setiau manylach o gwestiynau am y Gymraeg, megis trosglwyddo'r Gymraeg o fewn aelwydydd a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac mewn lleoliadau ieuchyd, yn cael eu cynnwys o bryd i'w gilydd. Yn ogystal â hyn, mae adroddiadau byr sy'n cyflwyno dadansoddiad pellach o ganlyniadau'r Gymraeg yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys tua 12,000 o bobl bob blwyddyn sy'n cael eu dewis ar hap i gymryd rhan. Gofynnir y cwestiynau i bobl 16 oed a throsodd. Cyn mis Mawrth 2020 cynhaliwyd yr arolwg wyneb yn wyneb. Ym mis Mai 2020 newidiodd yr Arolwg Cenedlaethol i gael ei gynnal dros y ffôn o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19. Dylid cymryd gofal wrth wneud cymariaethau uniongyrchol rhwng y ddau gyfnod hyn oherwydd y newid yn y dull o gasglu, a newidiadau gwirioneddol o ganlyniad i'r pandemig	Mae pynciau'r Arolwg Cenedlaethol yn cael eu diweddarau a'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol, gydag adroddiadau pwnc-benodol manylach yn cael eu cyhoeddi drwy gydol y flwyddyn.	Arolwg Cenedlaethol Cymru LLYW.CYMRU
----------------------------------	---	---	---	---

Arolwg defnydd iaith	Diben yr Arolwg Defnydd Iaith yw casglu gwybodaeth ynghylch pa mor aml, ble, pryd ac â phwy y mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg, a chael gwybod mwy am eu gallu yn yr iaith.	Cynhaliwyd Arolwg Defnydd Iaith 2019-20 fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru, yn yr un modd ag Arolwg Defnydd Iaith 2013-15. Yn dilyn cyhoeddi canfyddiadau cychwynnol Arolwg Defnydd Iaith 2019-20, cyhoeddwyd bwletin ychwanegol am y Gymraeg. Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y cartref a'r berthynas rhwng gallu siaradwyr Cymraeg a gallu eu rhieni. Mae hefyd yn adrodd ar beth oedd iaith addysg siaradwyr Cymraeg yn yr ysgol, mewn addysg bellach ac addysg uwch. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi gweddill canfyddiadau'r arolwg mewn bwletinau ystadegol ar wahân, yn ôl thema, gan gyfuno data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20 lle bo'n berthnasol. Mae'r Arolwg yn un papur, sydd yn cael ei roi i holl aelodau'r cartref, tair oed neu hŷn, sy'n siaradwyr Cymraeg sydd wedi eu hadnabod o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Defnyddiwyd dau fath o holiadur, un ar gyfer oedolion (16 oed neu hŷn) ac un ar gyfer plant a phobl ifanc (3 i 15 oed). Mae canlyniadau arolwg 2019-20 yn seiliedig ar sampl o ychydig dros 2,200 o siaradwyr Cymraeg. Roedd maint sampl Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 bron yn 7,200 o bobl.	Yn achlysurol.	Arolwg defnydd iaith LLYW.CYMRU
-----------------------------	--	---	-----------------------	--

		Daeth arolwg 2019-20 i ben yn gynharach nag a gynlluniwyd yn sgil pandemig y coronafeirws (COVID-19). Gan fod maint sampl 2019-20 yn llai na'r hyn a gynlluniwyd, nid yw'n bosibl dadansoddi canlyniadau'r arolwg yn ôl awdurdod lleol fel a wnaed yn yr arolygon blaenorol. Mae gwybodaeth am y cyfnod cyn 2013-15 ar gael yn arolwg 2013-15.		
Asesiadau athrawon	Mae athrawon yn cynnal asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6) a Chyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9). Bydd yr asesiadau yn dod i ben ar ôl 2023.	Mae'r data'n ymwneud â chanlyniadau fesul pwnc neu faes dysgu, gan gynnwys y Gymraeg. Bydd asesiadau llinell sylfaen ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (dosbarth derbyn) ar gael ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022 ac yna byddant yn dod i ben. Bydd asesiadau Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9) ar gael yn 2022 a 2023 (heblaw am ysgolion arbennig) ac wedyn yn dod i ben. Bydd system newydd o asesu ar lefel ysgol a chenedlaethol, yn unol â nodau'r	Blynyddol	Cyflawniad academiaidd yn ôl nodweddion disgyblion LLYW.CYMRU

		Cwricwlwm i Gymru, yn cael ei datblygu yn lle asesiadau llinell sylfaen. O ganlyniad i bandemig COVID-19, ni chasglwyd data am asesiadau athrawon yn 2020 a 2021, a disodlwyd arholiadau gan raddau asesu canolfannau. Bydd angen ystyried hyn wrth gynllunio a chynnal ymchwil sydd yn ddibynnol ar ddata am gyrhaeddiad dysgwyr.		
Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch	Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (Higher Education Statistics Agency, HESA) yn casglu ystod o ddata am fyfyrwyr addysg uwch a graddedigion o brifysgolion yn y DU, colegau addysg uwch a darparwyr addysg uwch eraill.	Mae gwybodaeth sy'n codi o'r data yn cael ei chyhoeddi fel ystadegau dienw swyddogol i'w defnyddio gan ystod eang o sefydliadau ac unigolion. Mae'r Asiantaeth yn casglu data ynghylch nifer y myfyrwyr sy'n astudio credydau drwy gyfrwng y Gymraeg; nifer y staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch; nifer y myfyrwyr cymwysedig o gyrsiau addysg gychwynnol i athrawon cynradd / uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; a chanran y cofrestriadau gan fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu haddysg.	Blynyddol	HESA - Experts in higher education data and analysis

Astudiaeth Carfan y Mileniwm	Mae Astudiaeth Carfan y Mileniwm (Millennium Cohort Study, MCS) yn dilyn bywydau plant a anwyd ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn 2000-01.	Holiaduron, asesiadau gwybyddol, a mesuriadau ffisegol a weinyddir gan gyfwelydd yw'r prif ddulliau casglu data a ddefnyddir yn ystod yr astudiaeth. Defnyddiwyd holiaduron er mwyn casglu amrywiaeth o wybodaeth am aelodau astudio a'u teuluoedd, gan gynnwys cefndir cymdeithasol a theuluol, iechyd meddwl a lles, a thai, cyflogaeth ac incwm. Mae asesiadau gwybyddol wedi mesur gallu geiriol, iaith a rhifol drwy gydol plentyndod. Mae'r astudiaeth yn dilyn 19,517 o bobl.		Astudiaeth Carfan y Mileniwm
Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw	Mae Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (Secure Anonymous Information Linkage, SAIL) yn darparu Amgylchedd Ymchwil Dibynadwy diogel i ddefnyddio ddata gweinyddol wedi ei ddad-adnabod ar gyfer gwaith ymchwil.	Mae'r Llywodraeth wedi cyfrannu at y buddsoddiad ym Manc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), sydd yn darparu Amgylchedd Ymchwil Dibynadwy diogel i ddefnyddio ddata gweinyddol wedi ei ddad-adnabod ar gyfer gwaith ymchwil. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn darparu diweddariadau sylweddol i ddata sy'n bodoli eisoes o fewn SAIL, ac mae'n parhau i geisio cynnig setiau data newydd i gefnogi anghenion tystiolaeth y Rhaglen Lywodraethu. Bydd SAIL yn galluogi ystyriaeth o wybodaeth weinyddol ochr yn ochr â data ynghylch caffael a defnydd iaith (drwy'r cyfrifiad, er enghraifft).		Hafan - Sail Databank

Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n gyfrifol am gydlynw'r sector Dysgu Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys pennu cwricwlwm, llunio adnoddau ar gyfer tiwtoriaid, ymchwil, marchnata, a chyfathrebu.	Mae'r Ganolfan yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol. Mae'r Ganolfan hefyd yn cyhoeddi data ynghylch nifer y gweithgareddau dysgu a nifer y dysgwyr sy'n dilyn gweithgareddau dysgu.	Yn rheolaidd	Dysgu Cymraeg Dysgu Cymraeg Cyhoeddi Data Dysgu Cymraeg
CBAC	CBAC yw'r darparwr cymwysterau mwyaf yng Nghymru. Mae'n darparu cymwysterau i ysgolion, colegau chweched dosbarth a cholegau addysg bellach.	Mae CBAC yn cyhoeddi data ynghylch cofrestriadau a chanlyniadau, gan gynnwys canlyniadau ar gyfer TGAU a Lefel A Cymraeg iaith gyntaf / ail iaith. Mae argaeledd data pellach i'w wirio gyda'r sefydliad.	Rheolaidd	Archif Ystadegau Canlyniadau (cbac.co.uk)
Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru	Mae'r Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (Lifelong Learning Wales Record, LLWR) yn gasgliad o ystadegau ar ddysgwyr mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.	Mae'r Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn gasgliad o wybodaeth ar ddysgwyr mewn addysg a hyfforddiant ar ôl-16 oed, heb gynnwys y rhai mewn ysgolion ond gan gynnwys y rhai mewn sefydliadau addysg bellach, darparwyr eraill dysgu seiliedig ar waith a darpariaeth addysg gymunedol. Mae data'r Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn cynnwys gwybodaeth am gyfrwng addysgu ac asesu gweithgareddau addysg yn ôl y math o ddarparwr.	Blynyddol	Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (llyw.cymru)

Comisiynydd y Gymraeg (Adroddiadau 5 mlynedd)	Adroddiadau ar sefyllfa'r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd o dan ddyletswydd yn Adran 5 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i gyhoeddi adroddiad bob pum mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg yn ystod y cyfnod hwnnw.	Mae cynnwys yr adroddiadau hyn yn dilyn yr hyn sydd wedi ei osod allan yn y Mesur (gweler Welsh Language (Wales) Measure 2011 (legislation.gov.uk)). Rhaid i'r adroddiad 5 mlynedd sy'n dilyn cyfrifiad ddadansoddi'r canlyniadau. Mae adroddiad 2016-2020 yn ceisio mesur cynnydd rhwng dau gyfrifiad, gan ganolbwyntio ar bedwar prif faes: statws yr iaith, cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu defnydd o'r iaith, a'r seilwaith a chyd-destun angenrheidiol.	Bob pum mlynedd	Sefyllfa'r Gymraeg 2016–20 (comisiynyddygy mraeg.cymru)
Comisiynydd y Gymraeg (Adroddiadau Blynyddol)	Adroddiadau Blynyddol ynghylch gwaith y Comisiynydd.	Manylion a data ynghylch gwaith y Comisiynydd.	Blynyddol	Adroddiad Blynyddol 2020-21 (comisiynyddygy mraeg.cymru)

Comisiynydd y Gymraeg (Adroddiadau sicrwydd)	Mae'r adroddiadau yn rhoi barn y Comisiynydd ar y ffordd y mae sefydliadau'n gweithredu ac yn rhoi sylw i brofiadau defnyddwyr y gwasanaethau Cymraeg.	Mae'r adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnwys: - Gwaith monitro: arolygon profiad defnyddwyr, gwirio adroddiadau blynyddol a chofnodion, ac astudiaethau thematig. - Ymgysylltu â defnyddwyr: cynnal digwyddiadau amrywiol ar hyd a lled Cymru er mwyn clywed am brofiadau pobl. - Ymwneud â sefydliadau: cynnal cyfarfodydd a gweithdai.	Blynyddol	Adroddiadau sicrwydd (comisiynyddygydraeg.cymru)
---	--	--	-----------	--

Cyfrifiad	Mae'r cyfrifiad yn digwydd bob 10 mlynedd, ac mae'n rhoi darlun i ni o'r holl bobl a chartrefi yng Nghymru a Lloegr.	Mae'r cyfrifiad yn casglu gwybodaeth ynglŷn ag aelwydydd a chartrefi gan helpu i greu darlun manwl o'r gymdeithas. Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell wybodaeth allweddol am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r cyfrifiad yn cael ei gynnal ym mhob aelwyd yng Nghymru a Lloegr.	Bob 10 mlynedd. Y sefyllfa wedi 2021 yn ddibynnol ar benderfyniad au'r Swyddfa Ystadegau Gwladol	Cyfrifiad 2021
------------------	--	--	--	--------------------------------

Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY)	Casgliad blynyddol o ddata ynghylch y gweithlu mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.	Mae'r CBGY yn gasgliad o ystadegau ar athrawon a staff cymorth mewn ysgolion a gynhelir ar ddiwrnod y cyfrifiad, gan gynnwys nodweddion y gweithlu, yr iaith Gymraeg a chyflogau athrawon. Mae'r cyfrifiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar briodweddau'r gweithlu, gan gynnwys gwybodaeth ar lefel sgiliau iaith y gweithlu yn ôl y 'Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg', defnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith a pha bynciau maent yn eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu ar lefel unigolion. Mae modd dadansoddi'r wybodaeth yn ôl nodweddion y gweithlu (e.e. rhyw, oedran) a nodweddion yr ysgol (e.e. sector, cyfrwng iaith). Mae'r data wedi cael eu casglu'n flynyddol ers 2019. Mae'r CBGY yn cael ei gynnal ym mhob lleoliad ysgol a gynhelir yng Nghymru.	Blynyddol	Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) (llyw.cymru)
Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)	Mae CYBLD yn gasgliad data o ddata ar lefel disgybl ac ysgol. Mae'r data yn cael ei ddarparu bob mis Ionawr gan bob ysgol gynradd, canol, uwchradd, meithrin ac arbennig a gynhelir.	Mae'r CYBLD yn cynnwys ystod o ddata ynghylch disgyblion ysgolion Cymru, gan gynnwys data ar nifer y disgyblion a addysgir y Gymraeg fel iaith gyntaf; y gallu i siarad Cymraeg; a nifer y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref. Mae pob ysgol a gynhelir yng Nghymru yn rhan o'r CYBLD.	Blynyddol	Cyfrifiad ysgolion (llyw.cymru)

Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)	Cyngor y Gweithlu Addysg yw'r corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru. Mae'n cynnwys athrawon a staff cymorth mewn ysgolion a lleoliadau addysg bellach, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid ac ymarferwyr sy'n gweithio ym maes dysgu yn y gweithle.	Mae'r CGA yn casglu data gweinyddol a monitro ar athrawon a staff cymorth addysgu cofrestredig, gan gynnwys data ynghylch sgiliau ieithyddol athrawon (a ydynt yn rhugl ai peidio), ac a ydynt yn gallu neu erioed wedi gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent hefyd yn cyhoeddi ymchwil a chyngor polisi. Mae dros 80,000 o gofrestreion, sy'n cynnwys athrawon a staff cymorth dysgu mewn ysgolion a lleoliadau addysg bellach, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid cymwys, ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith.	Blynyddol	Ymchwil ac ystadegau (ewc.wales)
Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg	Mae'r Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg yn deillio o Cymraeg 2050. Ei fwriad yw cynllunio datblygiadau technolegol fel bod y Gymraeg yn gallu cael ei defnyddio mewn ystod eang o sefyllfaoedd, gan ddefnyddio llais, bysellfwrdd neu ddulliau eraill o ryngweithio rhwng bodau dynol a chyfrifiaduron	Manylion a data ynghylch pecynnau gwaith sy'n gysylltiedig â'r Cynllun.		Cynllun gweithredu ar gyfer technoleg Cymraeg a chyfryngau digidol LLYW.CYMRU

Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA)	Cynlluniau statudol yw'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) sy'n gosod disgwyliad ar awdurdodau lleol i osod eu cynllun i wella cynllunio a safonau addysg cyfrwng Cymraeg o fewn ardal yr awdurdod. Maent yn gynlluniau 10-mllynedd gyda phob cynllun yn cynnwys targed i gynyddu'r ganran o ddysgwyr blwyddyn 1 sy'n derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg erbyn 2032.	Bydd pob CSCA yn unigryw. Bydd pob Cynllun yn cyflwyno data fesul sir a chylch, i gyd-fynd gyda 7 deiliant y CSCA. Bydd hyn yn cynnwys data ar leoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys Dechrau'n Deg); nifer a chanran y plant sy'n mynychu; a nifer a chanran sy'n trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu Saesneg. Mae pob Cynllun yn cynnwys data gweithlu, er mae peth anghysondeb yn y modd y defnyddir y data sydd ar gael trwy'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion ar hyn o bryd.	Blynyddol - rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad adolygu blynyddol.	Disgwylir y bydd pob Awdurdod Lleol i gyhoeddi eu CSCA ar eu gwefannau.
Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth Gofal	Mae angen i Unigolion Cyfrifol neu'r Personau Cofrestredig gwblhau a chyflwyno eu Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth Gofal (Self Assessment of Service Statement, SASS) fel rhan o'u cofrestriad i ddarparu gwasanaeth gofal.	Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn cyhoeddi ystadegau cryno ynglŷn â'r sefydliadau ac unigolion, yn ogystal ag ystod o adroddiadau blynyddol, thematig ac adolygiadau penodol. Mae'r data yn ymwneud ag ystod eang o Unigolion Cyfrifol / Personau Cofrestredig gan gynnwys gwarchodwyr plant; gofal dydd llawn; gwasanaethau gofal dydd i blant o dan 12 oed; ysgolion preswyl; ysgolion arbennig preswyl; a cholegau addysg bellach sy'n lletya myfyrwyr o dan 18 oed.	Dibynnol ar y ganolfan / gwasanaeth ond yn rheolaidd	Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth (SASS) Arolygiaeth Gofal Cymru

Deall Cymdeithas: Astudiaeth Hydredol Cartref y DU	Mae Deall Cymdeithas: Astudiaeth Hydredol Cartref y DU (Understanding Society: The UK Household Longitudinal Study) yn darparu gwybodaeth am newidiadau a sefydlogrwydd bywydau pobl yn y DU.	Mae'r cyfranogwyr yn dod o bob ardal yn y DU, ac mae'r astudiaeth yn cyfleu gwybodaeth am amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd pobl, agweddau, ffordd o fyw, iechyd, perthynas deuluol a chyflogaeth. Mae Deall Cymdeithas wedi cyfweld a tua 40,000 o aelwydydd.		Deall Cymdeithas – Astudiaeth Hydredol Cartref y DU
Gwasanaeth Derbyn Prifysgolion a Cholegau	Mae Gwasanaeth Derbyn Prifysgolion a Cholegau (Universities and Colleges Admissions Service, UCAS), yn elusen annibynnol. UCAS yw'r gwasanaeth derbyn ar gyfer addysg uwch.	Mae UCAS yn cyhoeddi bwletinâu ystadegol ynghylch israddedigion, uwchraddedigion, addysg bellach, prentisiaethau a gyrfaedd. Mae UCAS hefyd yn cynnig ystod o wasanaethau data ac yn darparu set gyfoethog o ddata sydd ar gael i ymchwilwyr ei defnyddio drwy Wasanaeth Ymchwil Diogel y Swyddfa Ystadegau Gwladol.	<u>Gwybodaeth ar gael yma:</u> UCAS timetable of data and analysis Undergraduate, Postgraduate, Conservatoires, Teacher Training UCAS	Data and analysis UCAS
Llywodraeth Cymru (Adroddiadau Blynyddol)	Adroddiadau cynnydd Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr'.	Data gweinyddol, monitro ac adroddiadau cynnydd mewn perthynas â Cymraeg 2050.	Blynyddol	Cymraeg 2050: adroddiadau

Cymraeg 2050)				blynyddol LLYW.CYMRU
Llywodraeth Cymru (Adroddiadau Blynyddol Safonau'r Gymraeg)	Adroddiadau statudol ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, a gyhoeddir erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.	Mae'r adroddiadau yn cyflwyno data mewn perthynas â'r gofynion adrodd sydd wedi eu gosod allan yn y Safonau eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys data ynghylch: - Sgiliau'r gweithlu (niferoedd a sgiliau Cymraeg). - Nifer a fynychodd gyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg. - Y ganran a fynychodd gyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg. - Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn: hanfodol; dymunol; i'w dysgu yn y swydd; ddim yn angenrheidiol. - Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â'r Safonau. Mae'r adroddiadau hefyd yn cynnwys dangosyddion eraill (yn wirfoddol) sydd yn ymwneud â defnydd gwasanaethau'r Llywodraeth, e.e. defnydd o linell ffon ganolog y Llywodraeth yn Gymraeg, gohebiaeth Weinidogol a dderbynnir yn Gymraeg, defnydd o llyw.cymru a gov.wales.	Blynyddol	Rheoleiddio'r Gymraeg Is-bwnc LLYW.CYMRU
Mudiad Meithrin (data gweinyddol)	Mudiad sy'n arbenigo ym maes y blynyddoedd cynnar yw Mudiad Meithrin.	Mae'r sefydliad yn casglu data monitro a gweinyddol. Mae argaeledd y data i'w wirio gyda'r sefydliad.		Mudiad Meithrin

Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion	Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (School Health Research Network, SHRN) yn dod ag ysgolion at ei gilydd gydag ymchwilwyr academiaidd, gwneuthurwyr polisi a mudiadau eraill i hyrwyddo dull ar sail tystiolaeth o wella iechyd a llesiant pobl ifanc. Un o nodau'r rhwydwaith yw darparu data cadarn ar iechyd a llesiant ar gyfer rhanddeiliaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.	Mae'r rhwydwaith yn cynnal Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr bob dwy flynedd i ateb y nod hwn. Yn yr un flwyddyn ysgol, mae ysgolion y rhwydwaith hefyd yn cwblhau Holiadur Amgylchedd Ysgolion i ddarparu data ar bolisïau ac arferion iechyd ysgolion. Mae'r arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr yn arolwg i bobl ifanc sy'n mynychu ysgolion sy'n aelodau o'r rhwydwaith. Caiff yr holl ysgolion sy'n rhan o'r rhwydwaith eu gwahodd i gymryd rhan, ac ers 2017 mae'r aelodaeth wedi cynnwys yr holl ysgolion uwchradd ac ysgolion canol prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru. Mae'r arolwg yn casglu data hunangofnodedig gan fyfyrwyr ym mlynnyddoedd ysgol 7 i 11. Anogir ysgolion i gynnwys yr holl fyfyrwyr yn y grwpiau blwyddyn hyn. Cwblheir yr arolwg gan fyfyrwyr ar-lein yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r arolwg yn cynnwys pynciau megis iechyd meddwl a llesiant; gweithgarwch corfforol a deiet; defnyddio sylweddau; bywyd ysgol; a bywyd teuluol a chymdeithasol. Mae'r holiadur yn esblygu ym mhob iteriad o'r arolwg, gydag eitemau craidd yn cael eu cadw a rhai eraill yn cael eu dileu neu'u hailgynnwys yn unol ag anghenion polisi a diddordebau ymchwil. Nid yw darpariaeth ieithyddol yr ysgol yn newidyn yn y set ddata ar gyfer yr arolwg myfyrwyr na'r arolwg	Bob dwy flynedd	Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion - School Health Research Network (shrn.org.uk)
--	--	---	------------------------	--

		amgylchedd ysgol. Mae'r newidyn yn cael ei ychwanegu pan fo angen.		
--	--	--	--	--

Swyddfa Ystadegau Gwladol (Astudiaeth Hydredol SYG)	Mae Astudiaeth Hydredol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnwys data o'r cyfrifiad wedi ei gysylltu â data digwyddiadau bywyd.	Mae'r Astudiaeth Hydredol yn cynnwys cofnodion ynghylch dros 500,000 o bobl sydd fel arfer yn byw yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n cynrychioli'r boblogaeth gyfan i raddau helaeth. Yr Astudiaeth Hydredol yw'r adnodd data hydredol mwyaf yng Nghymru a Lloegr.		Astudiaeth Hydredol SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol
--	---	--	--	---

WISERD (Astudiaeth Aml-garfan Addysg)	Mae Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) yn sefydliad ymchwil gwyddorau cymdeithasol rhyngddisgyblaethol cenedlaethol. Mae Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD yn darparu ffynhonnell ddata gyfoethog ar gyfer ymchwilwyr addysg, yn enwedig y rhai sy'n gweithio yng Nghymru.	Mae'r Astudiaeth Aml-Garfan yn un hydredol, sydd yn: • Rhoi'r cyfle i gael deall beth yw safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc yng Nghymru. • Datblygu ffynhonnell gadarn o ddata cymaradwy y gellir eu defnyddio i lywio polisi ac arfer. • Darparu 'labordy rhithwir' ar gyfer ymchwilwyr addysg a gwyddorau cymdeithasol eraill yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r sampl yn cynnwys 29 ysgol (13 ysgol uwchradd ac 16 cynradd) ledled Cymru. Mae'r sampl wedi ei chynlluniwyd i gynnwys cymunedau amrywiol (breintiedig/difreintiedig, gwledig/trefol, Cymraeg a Saesneg eu hiaith).	Gweler: Accessing the Data – Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (wiserd.ac.uk)	Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD – Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru
---	--	--	--	--

